# Llais Ogwan


Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 563 · **Ebrill 2025** · 70c

## Dathliadau Diwrnod y Llyfr!



## Hanes Warden Cyntaf Gwarchodfa Cwm Idwal






## Doniau'r Gerlan

Enillydd Dewis y Bobol 2025



# Llais Ogwan

**Rhif 563**
**Ebrill 2025**


### Panel Golygyddol

Ieuan Wyn
Lowri Roberts
Neville Hughes
Dewi A Morgan
Trystan Pritchard
Rhodri Llŷr Evans
Owain Evans
Carwyn Meredydd
Rhys Llwyd
Catrin Wager
Fflur Roberts

### Swyddogion

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

### Trefnydd hysbysebion

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

### Ysgrifennydd

Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

### Trysorydd

Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 /
07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Owain Evans.**

Y golygydd ym mis **Mai** fydd **Lowri Roberts,** 8 Pen y Ffriddoedd, Tregarth, Bangor, LL57 4NY.
01248 600490.
E-bost: l.roberts11@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 26 Ebrill** os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu **Nos Iau, 15 Mai** yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45.

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.




## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris i £35 y flwyddyn.

**Owen G Jones**, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Clwb Cyfeillion

**Gwobrau Ebrill**
£30.00 (169) Rita Lewis. Pantglas, Bethesda.
£20.00 (29) Mair O. Pierce, Rhos y Coed, Bethesda.
£10.00 (19) Gareth Llwyd, Sgwar Buddug, Bethesda.
£5.00 (93) Karen Aston, Erw Las, Bethesda.

## Dyddiadur y Dyffryn

### Ebrill

| | |
|---|---|
| 22 | Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 6.45. |
| 28 | Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00. |
| 28 | Te Bach. Festri Carmel Llanllechid. 2.30 – 4.00. |
| 29 | Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 6.45 |

### Mai

| | |
|---|---|
| 9 | Carnifal Bethesda. Noson Coroni. Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen. |
| 11 | Oedfa Cymorth Cristnogol. Capel Jerusalem am 5.00. |
| 12 | Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00. |
| 13 | Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 6.45. |
| 15 | Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan. Llawr Uchaf Cefnfaes am 6.45. |
| 17 | Carnifal Bethesda. Gorymdaith am1.10yp o'r Clwb Peldroed i'r Clwb Rygbi. |
| 27 | Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 6.45. |

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £5.00 | Don Hughes, Halifax. |
| £5.00 | Anna Jones, er cof annwyl am Dad, Evan Wyn Jones (Ifan), 1 Dôl Helyg, Talybont. |
| £2.30 | Deri a Megan Tomos, Sychnant. |
| £2.30 | 19 Abercaseg. |
| £2.30 | 38 Abercaseg. |
| £20.00 | Er cof annwyl am Margaret Jane Tomlinson, 13 Rhos y Coed, oddi wrth Raymond a Carol. |
| £2.30 | Gwyn Parry, Maes Coetmor. |
| £0.30 | R. Tomlinson, Rhos y Coed. |
| £2.30 | Derek a Sylvia, Rhos y Coed. |
| £2.30 | Gavin Parry, Rhos y Coed. |
| £2.30 | Carys a Martin, Rhos y Coed. |
| £2.30 | Alan Jones, Rhos y Coed. |
| £20.00 | Ceinwen Huws, Braichmelyn. |
| £10.00 | John Ffrancon Davies, Windsor, er cof am ei chwaer, Mair Owen, gynt o Fethesda a Bryngwran. |
| £2.30 | Un o gwsmeriaid Luned, Braichmelyn. |

***Diolch yn fawr.***

# Llais Ogwan

***Newyddion rhifyn mis Mai i'w dderbyn erbyn 26 Ebrill.***
***Dyddiad cyhoeddi 15 Mai***


Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru


***Cysylltwch â ni: golygydd@llaisogwan.com***

# Byw'n Iach yn penodi Rheolwr Gyfarwyddwr newydd

Mae cwmni Byw'n Iach wedi penodi Rheolwr Gyfarwyddwr newydd fydd yn arwain y rhwydwaith o adnoddau hamdden, iechyd a ffitrwydd yng Ngwynedd ymlaen i'r bennod nesaf.

Yn dilyn proses recriwtio drylwyr iawn, dewiswyd Trystan Pritchard i fod yn Rheolwr Gyfarwyddwr newydd, i olynu Amanda Davies sy'n camu lawr wedi wyth mlynedd wrth y llyw gyda gwasanaethau hamdden y sir.

Byw'n Iach sy'n rhedeg 11 canolfan hamdden sir Gwynedd ac mae'n cyflogi mwy na 250 o staff yn lleol i ddarparu llu o weithgareddau, er mwyn gwella iechyd, lles, ffitrwydd a sgiliau pawb o bob oed a gallu. Mae Byw'n Iach yn gwmni o dan berchnogaeth Cyngor Gwynedd.

Yn wreiddiol o Fethesda, mae gan Trystan Pritchard brofiad ledled y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru. Yn y gorffennol mae wedi bod mewn rolau rheolaethol uwch o fewn y sectorau Iechyd a Llywodraeth Leol. Mae ei feysydd arbenigedd yn cynnwys ymgysylltu, rheoli strategol, arweinyddiaeth a hyfforddi.

Mae Trystan yn aelod o Fwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru a Phwyllgor Cenedlaethol



Trystan Pritchard ac Amanda Davies

y Loteri ac mae'n cadeirio Mantell Gwynedd, y cyngor gwirfoddoli sirol. Mae hefyd wedi gwasanaethu fel Cadeirydd Pwyllgor Cyngor ar Bopeth Cymru. Mae ei ddiddordebau'n cynnwys mynydda, pêl droed, rygbi a threulio amser gyda'i deulu.

Dywedodd Trystan Pritchard: "Rwy'n edrych ymlaen yn fawr i ymuno a thîm Byw'n Iach. Mae hon yn rôl bwysig iawn i helpu i wella iechyd a lles pobl Gwynedd. Mae potensial mawr i adeiladu ar y gwaith gwych sydd eisoes yn digwydd ac i barhau i ddatblygu ein cyfleusterau ar draws y sir. Mae heriau amlwg yn wynebu gwasanaethau cyhoeddus a gobeithiaf y gallaf gydweithio a'r tîm a'n holl bartneriaid i wneud gwahaniaeth positif i fywydau ein trigolion."

Bydd Trystan yn ymuno a'r cwmni yn ystod mis Mawrth, ac yn cydweithio gyda Amanda Davies am yr wythnosau cyntaf er mwyn ymgyfarwyddo gyda gwaith y cwmni.

Amanda Davies oedd Rheolwr Gyfarwyddwr cyntaf y cwmni. Arweiniodd Byw'n Iach ar y daith o drosglwyddo o fod yn un o wasanaethau Cyngor Gwynedd i sefydlu cwmni cyfyngedig drwy warant yn 2019.

Dywedodd Amanda: "Mae wedi bod yn fraint fawr i fod yn rhan o'r tîm wnaeth sefydlu cwmni Byw'n Iach. Rwyf wedi cael y pleser o gydweithio gyda grŵp arbennig o gyfarwyddwyr a staff i roi sail gadarn i'r cwmni. Er ein bod wedi gorfod wynebau heriau mawr yn ystod blynyddoedd y pandemig, rydym wedi medru symud ymlaen o hynny i foderneiddio gwasanaethau a chyfleusterau. Mae gwasanaethau Byw'n Iach yn agos at galon lawer iawn o drigolion Gwynedd a dwi'n ffyddiog y bydd Trystan yn parhau i adeiladu ar y sail sydd yn ei le, er mwyn dod a'r buddion iechyd a llesiant i'n cymunedau ar draws y sir."

Ychwanegodd Cadeirydd Cwmni Byw'n Iach, y Cynghorydd Beth Lawton: "Rwy'n falch iawn bod y Cwmni wedi denu unigolyn mor arbennig i'r swydd allweddol hon. Mae Trystan yn dod a chyfoeth o brofiadau gwahanol i'r rôl, ac rwy'n ei longyfarch yn gynnes ar ei benodiad ac yn edrych ymlaen at weithio ochr yn ochr ag ef i gyflawni a rhagori ar nodau uchelgeisiol Byw'n Iach ar gyfer y dyfodol.

"Talaf deyrnged hefyd i Amanda wrth iddi gamu lawr. Diolch o waelod calon am ei gwaith ymroddedig a phob dymuniad da iddi i'r dyfodol."

## Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,** Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318) carys16@hotmail.com

**Gŵyl Delynau Cymru**

Cynhelir Cyngerdd Gŵyl Delynau Cymru 2025 yn y Galeri, Caernarfon ar 19eg Ebrill, 2025.

Y flwyddyn yma, Glain Dafydd o Bentir fydd un o'r prif berfformwyr. Bu i Glain astudio'r delyn yn yr École Normale de Musique de Paris. Mae nawr yn byw yn Llundain ac yn brysur iawn yn hyfforddi eraill ac yn addysgu myfyrwyr yn Queen's College London. Hefyd, mae'n cael ei gwahodd i berfformio ar draws Y Deyrnas Unedig ac ar y cyfandir.

Bydd y delynores Constance Luzatti yn rhannu'r llwyfan gyda Glain ac mae gan Constance atgofion melys o Gaernarfon wrth berfformio yn y Galeri yn 2006. Bryd hynny bu i Glain ennill y wobr ar gyfer cystadlaethau dan 16 a dan 21. Yn ystod yr un ŵyl, bu i Constance ennill y gystadleuaeth ar gyfer y Pencerdd (Chief Musician). Mae Constance yn dod o Ffrainc ac mae'n edrych ymlaen at berfformio gyda Glain, i addysgu'r delyn i eraill ac i gyfarfod y ffrindiau a wnaethpwyd pan oedd yng Nghaernarfon tro diwethaf.



# Blwyddyn Neilltuol i Elusen Ogwen

Mae Elusen Ogwen wedi dod i ddiwedd ei blwyddyn fwyaf llwyddiannus, gan dalu mwy na £25,000 mewn grantiau i gyrff lleol. Cafodd yr elusen ei sefydlu ym mis Rhagfyr 2020 er mwyn sianelu rhywfaint o'r elw o gynllun hydro Ynni Ogwen yn ôl i'r gymuned. Ers hynny, mae'r Elusen wedi cyfrannu dros £67,000 i fwy na 23 o grwpiau.

Dywedodd Gareth Cemlyn Jones, Cadeirydd Ynni Ogwen: "Ar gychwyn Ynni Ogwen roedd yna weledigaeth o ddefnyddio elw'r hydro i gefnogi cynlluniau fuasai'n gwella ansawdd bywyd trigolion Dyffryn Ogwen. Mae'n amlwg fod hyn wedi ei wireddu ac rwyf yn falch o ddiolch i'r tîm a dymuno pob llwyddiant am y dyfodol, wrth i ni agosáu at 8 mlynedd o gynhyrchu. Diolch i chi gyd".'

Mae'r elusen yn cynnal pedwar cylch ariannu bob blwyddyn a gall grwpiau yn ardaloedd Cynghorau Cymuned Llanllechid, Bethesda a Llandygai wneud cais am grantiau o hyd at £3,000. Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ymhlith y prosiectau a gafodd eu hariannu roedd: ffensys a llwybrau newydd yng Nghanolfan Tregarth; batri i fynd ochr yn ochr â phaneli solar ar do Neuadd Goffa Mynydd Llandygai; tŷ gwydr newydd yn *Growing for Change* ym Moelyci; sied newydd i ymwelwyr yn Asynnod Eryri; a goleuadau solar newydd a thanc dŵr yng Nghlwb Bowlio a Chriced Bethesda. Yn ogystal, helpodd yr elusen i ariannu llawer o grwpiau a oedd yn cynnal gweithgareddau haf fforddiadwy i blant yr ardal.

Mae Dreigiau'r Dyffryn, clwb gymnasteg i blant sydd wedi ei leoli yng Nghoed y Parc, Bethesda, bellach wedi cwblhau prosiect tair blynedd, a ariannwyd gan ddau grant gan Elusen Ogwen. Mae'r prosiect wedi caniatáu iddynt osod goleuadau LED newydd sy'n arbed ynni yn eu campfa.Yn ogystal â chynhyrchu golau cliriach a llawer mwy disglair, mae'r stribedi LED newydd yn defnyddio bron i 70% yn llai o ynni na'r stribedi fflwroleuol hŷn, a bydd hyn yn helpu'r clwb i leihau ei ddefnydd o ynni ac arbed arian.

Gall Elusen Ogwen gyfrannu at brosiectau sy'n bodloni un neu fwy o'r amcanion canlynol:

- Lleihau tlodi tanwydd a thlodi cymdeithasol
- Datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy
- Hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a theithio actif
- Arbed ynni
- Cysylltu unigolion o bob oed â'r amgylchedd
- Lleihau gwastraff
- Annog unigolion i wirfoddoli mewn prosiectau amgylcheddol yn eu cymunedau
- Gwella ansawdd yr amgylchedd lleol
- Cynyddu cynhyrchu / prynu cynnyrch bwyd lleol

Dywedodd Lowri Williams, Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr: "Rydym yn falch dros ben ein bod ni wedi llwyddo i ariannu cymaint o brosiectau sy'n cyfrannu at wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau ac amgylchedd pobl Dyffryn Ogwen, a'n bod wedi cael ein blwyddyn orau hyd yma y llynedd. Ond rydym bob tro yn awyddus i ariannu prosiectau newydd ac arloesol felly da chi cysylltwch â ni am sgwrs os oes gennych chi syniad yr hoffech ei drafod efo ni"

Mae rhagor o wybodaeth a ffurflenni cais ar gael ar wefan yr elusen ar www.elusenogwen.cymru, neu drwy e-bostio elusenogwen@gmail.com

# YSGOL ABERCASEG

### Diwrnod y Llyfr

Roedd yr ysgol yn fwrlwm i gyd ar ddiwrnod y llyfr gyda phob cymeriad o dan yr haul wedi cyrraedd Ysgol Abercaseg. Bu'r plant yn brysur yn trafod eu hoff lyfrau, trefnu llyfrau, yn cymharu enwau awduron yn ogystal â chymharu nifer o dudalennau. Bendigedig hefyd oedd gweld plant blwyddyn 2, plant hynaf yr ysgol yn darllen llyfrau i blant y dosbarth meithrin – da iawn chi!




### Ymweliad arbennig

Diolch enfawr i Casia William a bu'n brysur yn gweithio hefo plant blynyddoedd 1 a 2 yn disgrifio teganau. Roedd y plant yn chwarae gemau gwrando ar ansoddeiriau a dyfalu yna'n cael gweithio gyda'i gilydd i ddisgrifio'u hoff degan a chyflwyno eu gwaith ar ddiwedd y sesiwn.

### Diolch

Hoffa'i blant yr ysgol ddiolch y fawr iawn i Mrs. Sharon Hughes sydd yn gweithio i gwmni Barclays. Roedd Mrs. Hughes yn rhan fawr o drefniadau ar gyfer y cyngerdd Nadolig ac yn dilyn llwyddiant y perfformiadau llwyddwyd i fanteisio ar eu cynllun £4£. Mae'r plant wedi penderfynu defnyddio'r arian ar gyfer gwella'r ardal tu allan ac wedi bod yn brysur yn gwneud rhestrau ac yn cychwyn gwario'r arian. Diolch eto Mrs. Hughes a Barclays.

### Presenoldeb

Mae cynrychiolwyr y Sgwad Syniadau a phlant blwyddyn 2 wedi bod yn meddwl yn galed am wahanol ffyrdd o hybu presenoldeb plant yr ysgol. Maent wedi mynd ati i feddwl am gynllun wythnosol sydd yn canmol a gwobrwyo'r dosbarth gyda'r presenoldeb uchaf yn ogystal â rhoi cyflwyniad i weddill yr ysgol yn eu hatgoffa o'r holl bethau pwysig sydd yn digwydd o fewn diwrnod yn yr ysgol. Mae'r plant ar bigau i wybod pwy fydd yn cipio'r darian wythnos nesaf a phwy fydd yn mynd yn agosach ac yn agosach i frig y graff!

### Ffarwelio!

Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr i Angharad Jones am ei gwaith arbennig fel athrawes y Blynyddoedd Cynnar yn Ysgol Abercaseg dros bron i ddegawd. Mae ei natur hwyliog, bywiog a'i brwdfrydedd wedi dod â chymaint o egni positif i'r ysgol, ac fe fydd yn cael ei cholli'n fawr gan yr hen blantos a staff fel ei gilydd. Dymunwn bob lwc iddi yn ei swydd newydd ar ôl y Pasg.

### Croeso!

Hefyd, croeso mawr yn ôl i Alys Taylor ar ôl ei chyfnod mamolaeth – edrychwn ymlaen at ei chael yn ôl yn rhan o'r tîm!

# YSGOL PEN-Y-BRYN

**Pythefnos 3C – Cymru, Cymraeg, Cymuned**
Cafwyd dechrau prysur iawn i mis Mawrth wrth ddathlu Pythefnos 3C.

**Cymru** - Dechreuwyd y bythefnos trwy ddathlu Dydd Gwyl Dewi a'r hyn sy'n gwneud ein gwlad mor unigryw. Cafwyd cyfle i ddysgu am ddigwyddiadau a chymeriadau enwog y gorffennol a'r presennol. Mwynhaodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 sioe Mewn Cymeriad, gyda'r actor Gethin Bickerton yn dod a Llywelyn Ein Llyw Olaf yn fyw i'r plant.

**Cymraeg** - Bu'r disgyblion yn dysgu am Daith yr Iaith wrth edrych yn ôl ar ddigwyddiadau'r gorffennol ac edrych ymlaen i'r dyfodol, gan feddwl am syniadau ar sut i helpu gyda targed y llywodraeth o gael milwyn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Cafwyd mwynhad mawr wrth chwarae gemau buarth a gemau amser chwarae gwlyb, gwylio a gwerthuso rhaglenni teledu a gwrando ar gerddoriaeth, a'r hyn oll yn y Gymraeg.



## Dydd Gŵyl Dewi

Braf oedd cael cyfle i ddathlu diwylliant Cymreig a gweld holl blant yr ysgol wedi gwisgo mewn coch, gwyn, gwyrdd neu wedi gwisgo gwisg draddodiadol Gymreig. Cafwyd gwasanaeth gan blant blwyddyn 2 yn rhannu neges Dewi Sant a gwych oedd clywed ymatebion rhai o blant ieuengaf yr ysgol yn rhannu sut maen nhw'n 'gwneud y pethau bychain', er enghraifft Ivy yn dweud ei bod hi'n helpu i olchi llestri a Robyn yn dweud ei bod hi'n glanhau'r cwt cwningod. Bu'r plant hefyd yn ymarfer eu sgil-iau darlunio a'n gwylio clipiau fideo ar gyfer dysgu sut i wneud lluniau manwl o Gennin Pedr.





**Cymuned** - Cafodd pob disgybl gyfle i fynd allan i'r gymuned i sgwrsio yn y Gymraeg a dysgu am y defnydd o'r Gymraeg tu allan i'r ysgol. Diolch am y croeso gan Dilwyn yn Neuadd Ogwen, Chris yng Nghanolfan Cefnfaes, Robyn yn Llyfrgell y Pethau, Huw yn Dyffryn Gwyrdd a Donna ym Mhartneriaeth Ogwen. Ar ôl yr holl sgwrsio cafwyd diod a chacen flasus yng Nghaffi Coed y Brenin a sgwrs ddiddorol gyda'r staff a'r cwsmeriaid. Mae yna gymaint yn mynd ymlaen yn y gymuned a'r Gymraeg yn ganolbwynt i'r cyfan – rydym yn hynod lwcus ein bod yn byw yn Nyffryn Ogwen.

**Eisteddfod Gadeiriol Ysgol Penybryn**
Pinicl y bythefnos oedd Eisteddfod Gadeiriol Ysgol Penybryn gyda pob un plentyn wedi cymryd rhan. Roedd yna rhywbeth ar gyfer pawb – dawnsio, llefaru, talent, canu, dweud jôc, coginio, celf a llawer mwy. I goroni'r cyfan cafwydd seremoni cadeirio y bardd buddugol o bob blwyddyn am ysgrifennu cerdd am Fethesda. Roedd pedair cadair hardd wedi eu dylunio a'u creu gan ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen dan arweiniad Mr Richard Smith. Cafwyd teilyngdod, a rydym yn llongyfarch Caleb, Swyn, Hanna ac Elsi yn fawr ar eu camp.

**Diwrnod y Llyfr**
Cafwyd hwyl yn dathlu Diwrnod y Llyfr gyda'r disgyblion yn mwynhau gwisgo fel cymeriad a rhannu eu hoff lyfrau gyda'r dosbarth. Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn paratoi ar gyfer darllen llyfrau a gofyn cwestiynau am y cynnwys i blant blwyddyn 3 a 4, roedd pawb wrth eu boddau yn cael cymdeithasu gyda ffrindiau a mwynhau darllen.

**Gala Nofio**
Llongyfarchiadau mawr i'r criw fu'n nofio yn y Gala Nofio ar gyfer Ysgolion Bangor Ogwen. Braf oedd gweld pob un yn gwneud eu gorau glas ac yn cefnogi ei gilydd mor frwdfrydig.

**Ffair Fusnes Dosbarth Elidir**
Cynhaliodd disgyblion dosbarth Elidir eu hail ffair fusnes er mwyn ceisio ychwanegu mwy o elw i'r pot. Braf oedd gweld sut roedd y gwahanol fusnesau wedi addasu eu cynyrch er mwyn sicrhau gwerthiant am yr ail dro. Diolch i'r holl rieni ddaeth draw i gefnogi, meant bellach wedi llwyddo i greu £602 o elw fel dosbarth – anhygoel!!

**DJ Endaf**
Braf oedd croesawu DJ Endaf at Flwyddyn 3 i gyfansoddi cerddoriaeth ar yr app Garageband. Cafodd bawb hwyl yn arbrofi gyda synnau gwahanol offerynnau, cyn mynd ati i gyfansoddi eu cân unigryw eu hunain.

**Eisteddfod yr Urdd Cylch Bangor Ogwen**
Braf oedd gweld cymaint o blant Ysgol Penybryn yn cystadlu, unigolion yn llefaru a chanu, criw yn perfformio golygfa, dau barti unsain a dau barti llefaru. Llongyfarchiadau a phob lwc i bawb sydd ar eu ffordd i'r Eisteddfod Rhanbarth yn Pontio.

# Chwedl a Choel yn Nyffryn Ogwen (2)

## Gan Howard Huws

Fel llawer i ardal arall, bu yn Nyffryn Ogwen gewri. Nid yn unig "gwŷr glew y garreg las", ond rhai chwedlonol, XXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXL.

Rhagor na dau can mlynedd yn ôl cofnododd William Williams, Llandygái hanesyn am gawr yn yr ardal hon, o'r enw Idwal; a'i fod wedi'i gladdu yn ymyl Llyn Idwal ym mhen Nant Ffrancon. I'r de-orllewin o'r llyn mae cefnen o dir sawl llathen o hyd yn dynodi ei fedd, ac yn ôl yr hyn glywodd William Williams, mae hyd y gefnen honno'n cyfateb i hyd corff Idwal.

Yna ym Mhen y Garreg, Nant Ffrancon, ceid carreg anferth ar dir Penisa'r Nant ar ochr Llanllechid i'r afon. Yr oedd hon, meddid, wedi'i thaflu at hen wraig gan gawr a safai ar ochrdraw'r nant ym mhlwyf Llandygái. Rhaid ei bod yn garreg enfawr, oherwydd wrth iddo straenio i'w chodi a'i thaflu, suddodd sodlau'r cawr yn ddwfn i'r ddaear, gan ffurfio Cwm Graeanog a Chwm Dolawen o bobtu Mynydd Perfedd.

Mae hanes arall ynglŷn â Llyn Idwal. Ers talwm, arferai'r tywysogion yrru eu plant i'w maethu gan fonheddwyr eraill. Ganol y 12fed ganrif maethwyd Idwal ab Owain Gwynedd gan uchelwr o Ddyffryn Conwy, Nefydd Hardd, ac un diwrnod aeth Idwal a'i frawd maeth, Dunawd ap Nefydd, i hela yn y bryniau. Aeth yn ffrae rhwng y ddau wrth i'r naill hawlio'r hyn a ddaliwyd gan hebog y llall. Bwriodd Dunawd Idwal i'r llyn, a bu foddi. Dyna sut gafodd y llyn ei enw. Mae'r teithiwr Thomas Pennant ym 1778 yn ychwanegu bod enaid Dunawd yn cael ei boenydio yn Nhwll Du Cwm Idwal fyth ers hynny, ac na faidd yr un aderyn hedeg dros wyneb y llyn.



Yn dilyn marwolaeth Owain Gwynedd ym 1170, bu brwydro rhwng ei feibion am orsedd Gwynedd. Mae hanes i'r bardd Einion ap Gwalchmai guddio yn y Twll Du pan ar ffo rhag Dafydd ab Owain Gwynedd, am iddo gymryd ochr Hywel brawd Dafydd yn yr ymladd rhyngddynt. Eto, mae dweud bod y bardd Rhys Goch Eryri wedi ffoi am yno am loches dri chan mlynedd yn ddiweddarach, am iddo gefnogi Owain Glyndŵr. Os felly, yr oedd gan Rhys Goch sawl cuddfan yn y fro, oherwydd mae'r mannau eraill y dywedid iddo lochesu ynddynt yn cynnwys Ogof Ifan Bach rhwng godre'r Ola Wen a Llyn Ogwen; Ogo' Rys yng Nghwm Pen Llafar, ac ogof Gallt yr Ogof y tu draw i Dryfan. Mae englyn gan John Davies (tua 1567-1644) yn dweud:

Hynodol im i'w nodi – oesau gynt,<br>
Un Rhys Goch Eryri,<br>
A ganodd cyn ein geni<br>
Dan y maen, medd dyn i mi.

Adeg rhyfeloedd Cromwel yn yr 17eg ganrif 'roedd y brenin wedi dod â milwyr Gwyddelig yma i ymladd ei achos, a'r chwedl yw iddynt ffoi o Gastell Conwy, gan guddio eu trysorau yn Nant Ffrancon. Flynyddoedd lawer wedyn aeth dau frawd o Giltwllan i chwilio am eu defaid yn y Benglog, ym mhen draw'r Nant. Yno canfu'r ieuengaf dwll yn mynd i ogof fawr, lle'r oedd bwrdd crwn, ac arno bentyrrau o aur ac arian. Ofnai fynd i fewn i'w nôl, gan y safai yno filgi â llygaid tanllyd yn rhythu arno. Aeth yr hogyn yn ôl at ei frawd: ond er chwilio'n ddyfal am yr ogof, ni lwyddasant i'w chanfod.

Y tro nesaf: rhagor am yr ogof, a'r tylwyth teg. Cofiwch yrru ataf yn cyfarchiad@yahoo.co.uk os oes gennych chi unrhyw wybodaeth neu atgof yr hoffech ei gyfrannu.

# Difyrion Digidol

## gyda Deian ap Rhisiart

Yn gynharach eleni, lansiodd Gwreiddiau Gwyllt gronfa adnoddau natur newydd sbon sy'n le i chwilio am adnoddau natur yn y Gymraeg ar gyfer pob oed. https://www.gwreiddiaugwyllt.cymru/ - Yr ydym yn ffodus iawn o'r adnoddau sydd ar gael yn y Gymraeg ar gyfer byd natur fel grŵp Llên Natur gyda Bywiadur ac mae'r adnodd hon yn ychwanegiad gwych i'r rhestr.

Nod prosiect Gwreiddiau Gwyllt sy'n brosiect sy'n cael ei arwain gan Mentrau Iaith Cymru ac wedi'i ariannu gan y Gronfa Dreftadaeth yw hybu twf mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â byd natur yn y Gymraeg, gan gynnwys defnydd o dermau Cymraeg ar fywyd gwyllt.

I chwilio'r gronfa, mae yna opsiynau i bobl o bob oed, gyda dewislen cynefinoedd sy'n rhoi dewis yn amrywio o 'arfordir', 'Gardd', 'gwlyptir' 'môr' a 'mynydd' ymhlith nifer eraill o gynefinoedd. Yna, mae yna wahanol ystod oedran i'w ddewis – 5-7 hyd at oedolion. Mae'r adnoddau yn gallu bod yn ddogfennau cynhwysfawr ar gyfer oedolion ond hefyd yn bamffledi i ddiddanu plant bach ar drywydd bywyd gwyllt. Os y dewisir ystod oed 7-10 a chynefin 'Rhos a Mynydd' er enghraifft, mae yna sawl adnodd ar gyfer gloynnod byw i blant a chardiau adnoddau er mwyn gwasgaru hadau i blant. Ceir hefyd lyfryn llawn syniadau am weithgareddau yn yr awyr agored yn ymwneud â natur gan Ymddiriedolaeth John Muir gyda chefnogaeth Urdd Gobaith Cymru. Pe byddech yn dewis 'dwr croyw' fel testun, ac 'oedolion', fe ddaw 'Canllaw adnabod infertebratau'r pwll' sy'n adnabod infertebrau mewn dwr pwll fel gwas y neidr a malwod.

O ran oedolion, os y rhowch môr ac oedolion fel cyfuniad, mi ddaw'r ap hwn 'Plantnet' i fyny sydd ar gael yn y Gymraeg. https://identify.plantnet.org/cy Yr hyn sy'n wych am y platfform hwn yw'ch bod yn gallu adnabod planhigion trwy gyfrwng y Gymraeg. Offeryn yw Pl@ntNet i helpu i adnabod planhigion â lluniau. Fe'i trefnir fesul gwahanol fflora thematig a fflora daearyddol. Dewiswch yr un sy'n cyfateb i'ch rhanbarth neu faes diddordeb. Yn ôl y wefan, "Os nad ydych chi'n gwybod beth i'w ddewis, dewiswch "Fflora'r Byd" sydd â'r sylw ehangaf ond a fydd yn rhoi canlyniadau llai cywir na fflora â mwy o ffocws." Mi wnes i dynnu llun o genhinen pedr o'r ardd a'i lwytho ar y wefan ac fe wnaeth ei adnabod yn gywir gan roi'r enw yn Saesneg a Lladin. Dyma ffordd wych o ddod i adnabod planhigion a bywyd gwyllt yn iaith y nefoedd. Mae'r ap hwn yn addas i bawb o 11 oed ymlaen ac yn gyfle da i ddysgu defnyddio technoleg, dysgu am blanhigion a chael hwyl fel teulu.

Mae gwrando ar Galwad Cynnar ar BBC Radio Cymru, ar foreau dydd Sadwrn trwy BBC Sounds wastad yn bleser ac mae'n ysgogi rhywun bob tro i fynd allan i'r awyr iach i chwilota a gwneud yn fawr o'r bywyd gwyllt fel unigolion ac fel teulu, ond cofiwch erbyn hyn mae gennych chi ap plantnet sydd yn eich galluogi i chi adnabod planhigion trwy gyfrwng y Gymraeg a phob math o adnoddau defnyddiol iawn ar Gwreiddiau Gwyllt. Ewch amdani!

Os hoffech gymorth neu gyngor ar unrhyw agwedd o'r byd digidol, cysylltwch gyda mi deian.apRhisiart@cwmpas.coop

# Iaith Pesda
gan Mary Jones

## Popty bach a phopty mawr

**Popty bach** oedd yn y cartref pan oedd gwragedd-tŷ yn pobi bara eu hunain erstalwm. Wrth i'r arferiad o bobi bara cartref leihau, byddai'r mamau'n dal i wneud y toes a'u plant yn mynd ag o i'r pobydd (y becar) lleol i'w grasu yn y **popty mawr**, a oedd wrth gwrs yn fusnes teuluol. '**Mynd â thoes i'r popty**' oedd y dywediad, a mynd i nôl y bara oddi yno pan oedd hi'n '**amser tynnu**', sef tynnu'r torthau o'r popty. Ymhen amser, peidiodd yr arfer o wneud y toes gartref, a'r arfer wedyn fyddai prynu torthau gan y pobydd. Roedd llawer iawn o poptai mawr yn yr ardal. Collwyd yr arferiad o ddefnyddio'r enw 'popty mawr', a daeth yr enw 'becws' ar lafar gwlad. Cyn yr Ail Ryfel Byd, roedd tri popty mawr yn Nhregarth, sef Becws Penrala, Becws Pengroes a Becws Graig.

## Ambell Air ac Ymadrodd

**rogio.** Twyllo ydy hwn, yn enwedig torri neu wyro rheolau er mwyn ceisio ennill mewn gêm neu ryw fath arall o gystadleuaeth – "Paid ti â rogio y tro yma. Rwyt ti rêl rogiwr!"

**mynd ar ei dîn.** Busnes yn methu ydy hyn. 'Yr hwch yn mynd drwy'r siop' a 'gorfod cau siop' ydy dywediadau eraill tebyg – "Mae'r busnes wedi dŵad i ben achos trafferthion ariannol. Mae o wedi mynd ar ei dîn."
**calyn.** Dyma ddwedwn ni am 'canlyn', sef perthynas cariadon – "Mae hi'n calyn hogyn o Sir Fôn ers dipyn." Mae 'calyn stalwyn' a 'calyn march' hefyd, sef mynd â stalwyn at gesig mewn gwahanol ffermydd.
**botwm corn.** Botwm bychan wedi ei wneud o gorn anifail ydy hwn. Roedd yr enw 'botwm corn' yn cael ei ddefnyddio i olygu rhywbeth di-werth, ac i ddisgrifio rhywun di-hid, yn malio dim – "Dydi hi'n malio 'r un botwm corn."
**botwm crys.** Dyma fotwm arall, a'r enw'n cael ei ddefnyddio wrth ddisgrifio rhywun na ellir ymddiried ynddo na dibynnu arno – "Fyswn i ddim yn rhoi botwm crys arno fo."
**catiad.** Dyma'r gair oedd yn cael ei ddefnyddio am lond cetyn o faco pan oedd llawer iawn o ddynion yn smocio cetyn.
**cic mul.** Disgrifiad o ergyd drom ydy hwn.
**llaeth coch.** Cwrw ydy hwn, a 'llaeth mwnci' ydy ymadrodd arall.
**hen fachgan.** Dyn yn tynnu ymlaen o ran ei oedran – "Mae'r hen fachgan yn dal iddi'n bur dda."
**mowtio.** Troi neu ddychwel ydy ystyr hwn.
**cnebryna.** 'Cynhebryngau' ydy hwn – angladdau.
**hel ei fol.** 'Hel yn ei fol' ydy'r dywediad yn llawn, ac mae o'n golygu bod yn hoff iawn o fwyta – "Mae o'n un garw am hel ei fol"
**mynd yn nos.** Methu wrth geisio gwneud rhywbeth ydy hyn – "Roeddan ni wedi gobeithio cyrradd mewn pryd ond aeth hi'n nos arnan ni pan dorrodd y car i lawr."
**gynnau.** Neu fel y dywedwn ni gynna' sef ychydig amser yn ôl, amser byr o fewn munudau neu oriau efallai –"Ti wedi gweld Mair? " " Roedd hi yma gynna', dwn i ddim lle'r aeth hi!"
**trugareddau.** Oes gennych chi ddrôr neu gwpwrdd sy'n llawn o bethau yr ydych yn eu cadw 'rhag ofn', yn aml fe alwn ni'r pethau hyn yn drugareddau. Gelwir hwy hefyd yn **geriach** a **petheuach**. Tybed pam mai'r gair trugaredd sy'n cael ei ddefnyddio i enwi'r pethau hyn, wyddoch chi?

Diolch eto i Sandra Howells am ei chyfraniad, dyma rai geiriau ganddi –
**digio.** Os ydych wedi cael geiriau croes neu bod rhywun wedi eich brifo mewn unrhyw fodd ac ni allwch faddau, yna dywedir eich bod wedi digio efo'r person hwnnw. Clywsom ddweud hefyd os ydy trowsus person yn rhy fyr yna bod ei 'drowsus wedi digio efo'i sgidia'.
**beth bach.** Petai rhywun mewn poen neu wewyr yna dywedwn y geiriau "O, beth bach ynte." Mae gennym biti dros y person ac yn cael ei ddweud mewn tosturi.

**cnegwath.** Gwerth ceiniog, gellir dweud hefyd os nad oes digon o unrhyw beth nad oes cnegwath ohono yna.

A sôn am geiniog pwy sy'n cofio'r rhigwm







Ceiniog a cheiniog
A hanner dwy geiniog,
Grôt a phum ceiniog
Wnaiff swllt.

A dyna ni. Cofiwch os ydych yn cofio unrhyw air neu ymadrodd, tarwch o'i lawr ar bapur a gallwch anfon ataf:

Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda, LL57 3NN. maryeds@hotmail.co.uk, 07443047642 ac ar WhatsApp.


ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED
A.G.L.
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117
Symudol: 07835487909

BYSUS D. P. OWENS RHIWLAS

01248 361044
07771 634195
Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partion ac ati.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997
PERCHENNOG: DERFEL OWENS

1969
M.HUGHES A'I FAB
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda ☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
mhughesandson@hotmail.com
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

# YSGOL TREGARTH

### Athletau dan-do

Aeth tîm o 9 athletwyr draw i ganolfan Plas Silyn i gymryd rhan mewn amryw o rasys maes a thrac. Bu amryw o rasys gyfnewid, yn ogystal â chystadleuaeth taflu gwaywffon, pêl a naid hir. Roedd y plant wrth eu boddau yn cymryd rhan fel aelod o dîm yn erbyn ysgolion eraill o gwmpas Gwynedd ac wedi cynrychioli'r ysgol yn wych. Da iawn chi blant!




### Gala Nofio

Aeth tîm llawn o nofwyr cryf i gymryd rhan yn y gala nofio ym Mangor. Cyrhaeddodd y criw gyda'r tlws enillwyr ysgolion bach a gipwyd y llynedd, gan obeithio gwneud sioe cystal eleni. Bu 24 o blant yn cymryd rhan i gyd, a phawb wedi cynrychioli'r ysgol yn wych ar y diwrnod. Daeth yr ysgol yn 4ydd allan o'r holl ysgolion, ac unwaith eto eleni, yn fuddugol o'r tlws 'enillwyr ysgolion bach'!

### Gweithdy Cân y Coed Martin Daws

Cafodd Blwyddyn 4, 5 a 6 brofiad unigryw mewn gweithdy Cân y Coed gyda'r bardd a chynhyrchydd cerddoriaeth, Martin Daws! Defnyddiodd y plant y ddyfais *Plant Choir* i recordio cerddoriaeth a gynhyrchwyd gan blanhigion ac yna ysgrifennu geiriau rap i gyd-fynd â'r gerddoriaeth. Roedd yn ddiwrnod creadigol ac ysbrydoledig yn yr awyr agored – roedd y plant wrth eu bodd! Diolch yn fawr i Martin am brofiad arbennig.

### Disco Menter Iaith

Cafodd pob dosbarth hwyl un prynhawn gan fod disgo yn neuadd yr ysgol. Trefnwyd y disgo gan y Fenter Iaith, a braf oedd clywed llond y neuadd o ganeuon Cymraeg a'r plant yn morio canu a dawnsio.

### Llyfrgell y Pethau

Mwynhaodd Blwyddyn 6 ddiwrnod braf a heulog yn cerdded o Dregarth i Fethesda i fynychu lansiad 'Llyfrgell y Pethau' yn Lyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen. Cawsant gyfle i ddysgu am yr amrywiaeth eang o bethau y gellir eu benthyg. Cymerodd y plant ran mewn cwis difyr a amlygodd bwysigrwydd ailgylchu ac ail-ddefnyddio eitemau. Cawsant hefyd rannu eu syniadau am yr hyn yr hoffent ei weld yn y llyfrgell yn y dyfodol. Diolch yn fawr i'r staff am eu croeso cynnes a'r wybodaeth werthfawr!

## Rygbi Taclo Yr Urdd

Am y tro cyntaf erioed, roedd gan Ysgol Tregarth tîm rygbi i gymryd rhan yn y gystadleuaeth taclo. Mae'r ysgol wedi cymryd rhan mewn cystadlaethau rygbi tag dros y blynyddoedd, ond erioed wedi mentro cystadlu yn y gêm taclo. Ar ôl dipyn o ymarfer yn yr ysgol, a phrofiad rhai o'r plant o chwarae i Glwb Rygbi Bethesda, mi wnaeth y plant yn wych ar y diwrnod. Curo 3 gêm allan o 5 yn y grŵp, a olygai iddynt fynd ymlaen i'r rownd chwarteri olaf. Colli yn erbyn Ysgol Cae Top oedd eu hanes, ond pawb wedi gwneud yn arbennig o dda ar y diwrnod. Y plant blwyddyn 5 yn edrych ymlaen at fynd yn ôl blwyddyn nesaf yn barod.



### Eisteddfod Cylch yr Urdd

Diolch yn fawr i'r criw aeth i'r eisteddfod cylch i gystadlu yn ddiweddar. Fe wnaeth yr unigolion a'r parti llefaru berfformio yn arbennig o dda a diolch i chi gyd am fod mor barod i gynrychioli'r ysgol. Daliwch ati i gystadlu a mwynhau perfformio.

### Diwrnod Trwynau Coch

Cawsom amser gwych yn dathlu diwrnod trwynau coch eleni gyda chystadleuaeth gwallt gwirion a chystadleuaeth jôcs, wedi eu trefnu gan ein Cyngor Ysgol. Dangosodd ein disgyblion eu creadigrwydd gyda steiliau gwallt hwyliog a rhannodd llawer o ein comediwyr ifanc eu jôcs a oedd yn gwneud i bawb chwerthin. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd tuag at yr achos.



# Calendr Llais Ogwan 2026

Lluniau ar gyfer Calendr 2026 i mewn cyn **31 Mai 2025**, os gwelwch yn dda, er mwyn rhoi digon o amser i gynhyrchu'r calendr. Bydd unrhyw lun o ardal Dyffryn Ogwen (gan gynnwys y Carneddau a'r Glyderau) yn cael ei ystyried.



**Lluniau fformat tirlun, os gwelwch yn dda**

*Cofiwch :*

- ***nodi lle y cymerwyd y llun, rhoi teitl i'r llun, a cynnwys eich cyferiad a'ch enw***

Anfonwch eich llun(iau) trwy ebost at: calendr2026@outlook.com

**Bydd y calendr ar werth ym mis Hydref – tybed fydd eich llun chi ynddo fo?**

## Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Gwellhad**
'Rydan ni'n anfon ein cofion fel pentref at Elizabeth Buckley, Maes Ogwen, sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn ystod yr wythnosau diwethaf. Brysiwch wella Bessie!

**Arddangosfa Oriel Môn**
Ar hyn o bryd, hyd at Ebrill 27, mae arddangosfa o waith yr artist o Sling, Pete Jones i'w weld. Brodor o Hirael yn wreiddiol ydi Pete, ond bu'n byw yma yn Nyffryn Ogwen ers rhai blynyddoedd. Mae tua 156 o baentiadau o'i waith yno a dyma gyfle i ninnau, brodorion y dyffryn i edmygu darnau o gelf yr artist drwy ymweld â Oriel Môn.

### Capel Shiloh Newydd

Oedfaon am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol.
Ebrill 17: Gwasanaeth Cymun Undebol - Dydd Iau Cablyd - 6 o'r gloch
Ebrill 20: Sul y Pasg - Dr. Alun Morton Thomas, Porthaethwy
Ebrill 27: Hugh Pritchard, Llangefni
Mai 4: Ffion Rowlinson
Mai 11: Sul Cymorth Cristnogol - Dafydd Iwan

**Drws Agored** – Dewch draw i Festri Shiloh ar fore Gwener o 10 i 12 o'r gloch. Croeso cynnes am baned a sgwrs ddifyr. Yn ystod yr wythnosau diwethaf rydym wedi medru cyfrannu i'r elusennau yma fel canlyniad i gyfraniadau aelodau Drws Agored:
Ambiwlans Awyr Cymru: £100
Awyr Las: £100
Ward Alaw: £100
Diolch i bawb am eu haelioni.



### Arddangos yn Crufts

Roedd Dydd Sadwrn Crufts 2025 yn ddiwrnod arbennig i Nia a Kevin Hughes, Tyddyn Dicwm Bach, a'r cŵn; Razz a Haf. Dyma ddiwrnod categori y cŵn hela, gyda Nia a Kevin yn cystadlu gyda'r *Irish Setters*. Roedd dros 5,000 o gŵn hela yn cystadlu, gyda 260 ohonynt yn *Irish Setters*. Bu'r ddwy ast yn llwyddianus a'n derbyn dwy wobr. Razz yn derbyn yr ail wobr allan o bymtheg, a Haf yn derbyn y bedwaredd wobr allan o ddeg yn ei dosbarth. Mwynhewch edrych ar y llun gosgeiddig o'r ddwy ast. Llongyfarchiadau i deulu Tyddyn Dicwm Bach!

**Cydymdeimlo**
Bu farw Mrs. Ann Tomlinson, o Borthaethwy, ond gynt o Ffordd Tanrhiw, ar Chwefror 8, yn Ysbyty Gwynedd. Roedd yn wraig i Jimmy, yn fam i Kevin, Susan, Kelly a'r diweddar Barry ac yn Nain a Hen Nain annwyl iawn. Anfonwn ein cydymdeimlad i chi fel teulu.

**Merched y Wawr Cangen Tregarth**
Dathlwyd Dydd Gŵyl Ddewi yn Festri Capel Shiloh Newydd, Nos Lun, Mawrth 3, gyda phawb yn mwynhau gwledd o waith rhai o'r aelodau. Braf oedd cael cyfle i sgwrsio a mor braf oedd croesawu Linda Brown, Gerlan i sôn am ei swydd ymysg yr henoed yn Nyffryn Ogwen. Nid yn unig mae ei gwaith fel rhan o Bartneriaeth Ogwen yn ymwneud â threfnu digwyddiadau ar eu cyfer ond hefyd yn ymweld a'u cartrefi a helpu mewn unrhyw fodd posibl. Llynedd trefnodd De Prynhawn ac adloniant yn Neuadd Ogwen gyda Wil Tân yn diddanu. Eleni, yn Nghlwb Rygbi Bethesda, bydd yr henoed yn cael eu diddanu gan Dylan a Neil. Diolchwyd i Linda am ei gwaith gan Christine, a mwynhaodd pawb noson gartrefol iawn.

Llongyfarchiadau i Myfanwy Harper. Mae Myfanwy wedi bod yn ysgrifennydd y Mudiad drwy Gymru gyfan a bydd yn ymddeol o'r swydd yn y misoedd nesa. Diolch i ti, Myfanwy am gynrychioli ein cangen fach ni yma yn Nhregarth, yr aelod cynta o Dregarth i fod yn rhan o'r Pwyllgor Cenedlaethol.

Bydd y gangen yn cyfarfod nesaf ar Ebrill 7 pan ddaw yr artist Cefyn Burgess i sgwrsio am ei waith ym myd tecstiliau a theithiau tramor. Noson i edrych ymlaen ati yn Festri Shiloh am 7.30. Croeso i bawb.

**Dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ym Mhrifysgol Bangor**
Daeth braint fawr i un o ferched y pentref, sef Shan Robinson, Ffordd Tanrhiw, gan hi ddewisiwyd i ddadorchuddio gwaith celf diweddaraf a gomisyniwyd gan y Brifysgol.

Mae Shan yn aelod hynod o weithgar o Adran Archifau Prifysgol Bangor. Paentiwyd y gwaith celf diweddaraf gan gyn-fyfyriwr o'r coleg, yr artist Meinir Mathias. Testun y gwaith oedd portread o Charlotte Price White (1873-1932) oedd hefyd yn gyn-fyfyriwr o Goleg Bangor - yn swffraget, ymgyrchydd heddwch, cynghorydd a chyn-aelod o Lys y Brifysgol.

Comisiynwyd y llun fel rhan o fenter dan arweiniad Oliver Turnbull, Dirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Bangor i gynrychioli hanes cyfoethog a amrywiol y Brifysgol, a llwyddiant eu cyn fyfyrwyr.

***Pob deunydd i law erbyn dydd Sadwrn, 26 Ebrill os gwelwch yn dda.***


C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu
Timber & Builders' Merchants
Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel - Llandudno
C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.


Bethesda 01248 600 045
bethesda@cljonesltd.co.uk

# CHWILAIR



## MIMOSA. YMFUDWYR I'R WLADFA

Yn y Chwilair mis yma MAE ENW DEUDDEG O YMFUDWYR A HWYLIODD AR FWRDD Y MIMOSA I'R WLADFA YN 1865 i'w darganfod. Nid wyf wedi cynnwys eu cyfenw dim ond yr enw cyntaf a canol gan fod llawer ohonynt yn Jones, Evans neu Williams. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn <u>un</u> llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 25 Ebrill. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nid oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| W | A | A | W | F | H | R | I | E | J | L | C | M | B | V | B | H | X | J | U |
| A | E | L | I | Z | A | B | E | T | H | H | A | R | R | I | E | T | I | W | S |
| T | V | S | H | E | I | M | G | V | H | M | D | I | W | H | U | Z | M | I | X |
| K | J | O | H | N | M | U | R | R | Y | V | C | A | D | D | N | A | P | L | A |
| I | J | U | Q | U | S | O | F | R | P | H | Y | Q | Z | G | R | H | C | L | U |
| N | M | O | W | N | O | Y | R | I | A | A | S | Z | U | T | F | D | X | I | U |
| W | P | W | H | R | H | C | Q | R | H | W | E | H | O | Y | E | E | G | A | E |
| E | O | M | H | N | E | P | D | T | T | C | T | B | E | B | C | U | U | M | J |
| S | H | P | L | T | D | H | M | I | V | V | N | N | D | Y | C | B | B | J | F |
| L | R | T | F | O | O | A | G | J | V | I | A | I | R | R | R | X | I | O | M |
| E | Y | H | E | W | T | T | N | O | S | J | N | N | K | A | O | P | W | H | R |
| Y | C | R | E | S | M | K | C | I | E | B | N | O | R | M | C | X | V | N | R |
| Y | H | L | R | S | H | T | M | N | E | A | E | R | E | Y | F | Y | J | D | Z |
| H | L | B | C | E | W | P | I | O | Y | L | P | S | C | W | R | A | I | X | N |
| I | L | X | J | J | B | R | E | R | M | B | S | W | T | N | E | X | M | D | X |
| K | F | U | P | C | E | S | A | S | Q | Y | A | O | I | A | L | F | E | R | Z |
| Q | R | O | C | H | T | M | E | D | O | G | M | W | S | F | L | Z | E | B | E |
| A | J | K | T | J | C | L | N | M | L | J | O | R | V | Y | O | G | J | P | W |
| P | G | A | S | O | W | J | J | Q | A | U | H | L | F | M | S | V | T | X | E |
| U | C | G | H | S | L | Z | E | A | F | J | T | X | I | W | T | Z | H | K | V |

**Dyma atebion Chwilair Mawrth:** Barnwyr; Daniel; Diarhebion; Eseciel; Esra; Galarnad; Genesis; Jeremeia; Malachi; Numeri; Ruth; Seffaneia.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd hyd i'r atebion cywir:** Barbara a Gwilym Owen, Rhos y Nant, Bethesda; Mary A. Jones, Rachub; Gwen Davies, Bethesda; Rosemary Williams, Tregarth; Nia Wyn Bagnall, Llandygai; Doris Shaw, Bethesda; Judith Hughes, Llangoed; Rosslyn Owen, Rhosmeirch; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Carys Parry, Caerhun.

**Enillydd Mawrth oedd:** Gwenda Roberts, Gorwel Deg, Rhosmeirch, Ynys Môn. LL77 7SJ.

## Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Mae wedi bod yn fis prysur i ni ym Mhlaid Cymru Dyffryn Ogwen. Roedd yn braf gweld cymaint o aelodau yn dod ynghyd ar gyfer ein Bore Coffi Dydd Gŵyl Dewi – bob amser yn gyfle gwych i sgwrsio mewn awyrgylch mwy hamddenol.

Bu llawer o'n haelodau hefyd yn bresennol yng Nghynhadledd Plaid Cymru yn Llandudno, a gynhaliwyd bron i flwyddyn cyn etholiadau nesaf y Senedd. Gyda'r blaid yn dathlu 100 mlyddiant eleni ers ei sefydlu ym 1925, mae'n galonogol gweld bod arolygon barn diweddar yn dangos Plaid Cymru ar y brig.

Clywsom Rhun ap Iorwerth yn amlinellu ei weledigaeth ar gyfer dyfodol Cymru – gweledigaeth sy'n cynnig dechrau newydd, gan roi i'r gwasanaeth iechyd yr adnoddau mae'n eu haeddu, darparu gwasanaethau cyhoeddus gwerthfawr a chreu economi gryfach a thecach i bawb. Wrth edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf, meddai, byddwn yn parhau i ddangos i bobl Cymru fod gennym y weledigaeth a'r egni i arwain llywodraeth gyda syniadau newydd a phenderfyniad i wneud gwahaniaeth.

## Dathlu 50 Clwb Rygbi Bethesda

Ar yr ail o Fai, am 7.30yh, cynhelir noson o hel atgofion hanner can mlynedd cyntaf Clwb Rygbi Bethesda.

Mae croeso cynnes i bawb ddod draw i Ddôl Dafydd i sgwrsio ac i weld arddangosfa o luniau, fideos, rhaglenni a phopeth arall sydd ynghlwm â siwrna anhygoel y clwb dros y pump degawd cyntaf.


Os oes gennych unrhyw beth o ddiddordeb (ar ffurf digidol neu ar bapur) yr hoffech ei arddangos (timau dynion,merched, adran iau, *minis*, adeiladau, teithiau ayyb), cysylltwch â'r Cadeirydd, Gareth Evans (07917665561), neu Graham Davies (07796297674).



# Evan Roberts - naturiaethwr o fri

Ganwyd Evan Roberts yn 1906 yn nhyddyn y Gelli – Gelli Mynach – yng Nghapel Curig. Saif yr hen fferm-dŷ ar lechwedd Cefn Capel, efo Nant y Benglog i'r gogledd-orllewin iddo a Dyffryn Mymbyr i'r de-orllewin. Fel Ifan Gelli y'i hadnabuwyd gan gyfeillion a chydnabod gydol ei oes. Wedi gadael ysgol, bu'n gweithio yn Chwarel y Rhos ar ochr Moel Siabod tan iddi gau yn yr 1950au. Yno, dysgodd sawl crefft chwarelydda, ond daeth yn gryn greigiwr gan ei fod yn bur gysurus yn gweithio ar wyneb y clogwyn. Bu'r profiad hwnnw yn gaffaeliad mawr iddo pan ddechreuodd ddringo yn y mynyddoedd yn ddiweddarach i chwilio am blanhigion prin. Yn dilyn y cyfnod yn y chwarel, bu'n gweithio yng nghoed Gwydir i'r Comisiwn Coedwigaeth, gwaith corfforol caled eto yn yr awyr agored.

Roedd byd natur wedi apelio at Evan ers pan oedd o'n blentyn, ond datblygodd ei ddiddordeb mewn planhigion yn benodol drwy ddylanwad diddordeb ei daid, William David Roberts, er na chafodd Evan ddim o'i gwmni. Arferai ei daid gasglu gwahanol fathau o redyn a dyfai yn y cyffiniau, gan gynnwys nifer o rai prin. Byddai'n eu hastudio a'u cofnodi, ac yn eu plannu yn yr ardd, ac yn naturiol daeth Evan i wybod am ei ddiddordeb ar yr aelwyd. Roedd gan ei daid 'lyfr rhedyn' ond ni chafodd Evan gyfle i'w weld gan iddo fynd i gangen arall o'r teulu pan fu farw'i daid. Mae rhai o'r rhedynnau yn dal i dyfu yng ngardd y Gelli dan ofal Eon, un o feibion Evan. Gyda llaw, mae Hugh Derfel Hughes yn ei gyfrol *Hynafiaethau Llandegai a Llanllechid* (1866) yn rhestru enwau ugain math gwahanol o redyn a dyfai rhwng Bethesda a Chapel Curig.



Wrth grwydro'i ardal yn ei ychydig amser hamdden y dechreuodd Evan sylwi'n fwy manwl ar blanhigion, yn enwedig yn y mynydd. Daeth ar draws flodyn trawiadol uwchlaw Llyn y Foel ar ochr Moel Siabod, a rhyfeddu at ei dlysni ym moelni'r mynydd-dir. Canfu wedyn mai Torfaen Cyferbynddail oedd o. Bu'r digwyddiad hwnnw'n fodd iddo'i atgoffa ei hun o ddiddordeb ei daid, a chael ei symbylu i ddilyn yr un trywydd. Cafodd gyngor ar sut i gofnodi'n hyn yr oedd yn ei ganfod, a thyfodd ei ddealltwriaeth o fywyd blanhigion y mynydd. Oherwydd ei adnabyddiaeth o'r mynydd-dir, daeth i wybod union leoliadau'r blodau prin, ac roedd wedi sylwi ar eu nodweddion fel planhigion unigol yn ogystal â'u cynefin o ran natur y graig a'r pridd, y llystyfiant o'u cwmpas, a graddfeydd y lleithder a'r heulwen a'u cynhaliai.

Daeth llawer o naturiaethwyr y tu hwnt i Eryri a Chymru i wybod am ei arbenigedd. Er mwyn medru tywys botanegwyr proffesiynol o brifysgolion ac ymddiriedolaethau natur i weld y blodau alpaidd prin, ymgyfarwyddodd â'r dringfeydd ar y clogwyni a'r dulliau dringo diweddaraf. Câi foddhad yn dangos y blodau rhyfeddol hyn iddynt, gan gynnwys brwynddail y mynydd (Lili'r Wyddfa) yn y Twll Du yng Nghwm Idwal. Canfuwyd y blodyn prin hwn gyntaf gan Edward Llwyd yn yr 17g a chydnabuwyd hynny drwy roi'r enw gwyddonol *Lloydia serotina* arno.

Yn 1954, sefydlwyd Gwarchodfa Natur Cwm Idwal, y gyntaf yng Nghymru, a chafodd Evan ei benodi'n Warden. Daeth yn Brif Warden i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, efo cyfrifoldeb dros bob gwarchodfa yn Sir Fôn, Sir Gaernarfon a Sir Feirionnydd, gan gydweithio efo Prif Warden y Parc Cenedlaethol Eryri ar y pryd. Yn ogystal â chofnodi planhigion y mynydd, bu Evan yn casglu ffosiliau a darnau o greigiau, ac astudio'r modd yr oedd mynyddoedd Eryri wedi eu ffurfio. Oherwydd ei arbenigedd fel botanegydd a'i gyfraniad neilltuol i ledaenu gwybodaeth fanwl am blanhigion y mynydd a chyfoethogi dealltwriaeth academyddion yn y maes, derbyniodd radd M.Sc er anrhydedd gan Brifysgol Cymru yn 1956. Yn ddiweddarch, derbyniodd yr M.B.E. Rhoddwyd yr enw Nant Ifan ar y ffos sy'n llifo o'r Glyder Fawr i Lyn Idwal fel coffâd yn amgylchedd naturiol ei gynefin. Mae ei nodiadau manwl am ei holl ddarganfyddiadau a'r casgliadau i gyd wedi eu cadw'n ddiogel yn y Llyfrgell Genedlaethol.

---

Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.


SIÂN GWENLLIAN

AELOD O'R SENEDD DROS ARFON

CYSYLLTWCH:

sian.gwenllian@senedd.cymru

01286 672 076

70 Stryd Fawr, Bangor

Senedd Cymru
Welsh Parliament



Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan
Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead cyf

Swyddfa Gofrestredig Penrala,
Tregarth, Bangor, Gwynedd,
LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

## Dyddiadur Boreau Coffi

**26 Ebrill** – Clwb Gorffwysfan - Festri Jerusalem
**10 Mai** – Cymorth Cristnogol – Festri Jerusalem
**31 Mai** – Cymdeithas Jerusalem – Festri Jerusalem
**21 Mehefin** – Eisteddfod Dyffryn Ogwen
**18 Hydref** – Eisteddfod Dyffryn Ogwen
**06 Rhagfyr** – Clwb Gorffwysfan

**Pwysig**
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos bob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

## Clwb Coffi Talybont

**FESTRI BETHLEHEM**

Boreau Llun, 10.30 – 12.00

**Ebrill 28**
**Mai 12**

Croeso cynnes i bawb

CANOLFAN CEFNFAES

## Gyrfa Chwist

Ebrill 22 a 29
Mai 13 a 27
am 6.45yh.
Croeso i bawb

FESTRI JERUSALEM

## CLWB GORFFWYSFAN

**Sadwrn, 26 Ebrill**
**10.00 – 12.00**

Mynediad - £1.00

FESTRI JERUSALEM

## Cymorth Cristnogol

**Sadwrn, 10 Mai**
**10.00 – 12.00**

Mynediad : £1.00

***Cysylltwch â Neville Hughes (Ffôn 600853) nev_hughes@btinternet.com***

Festri Carmel, Llanllechid

## TE BACH

**Dydd Llun, 28 Ebrill**

**2.30 – 4.00**

BWS OGWEN

## TRIPIAU PASG

PLANT O DAN 13 OED YN TEITHIO AM DDIM!

DYDD MAWRTH:
22/04/2025 - Castell Penrhyn £5

DYDD MERCHER:
23/04/2025 - Plas yn Rhiw £10

Nifer cyfyngedig o leoedd ar gael!

Dim tâl mynediad. Bydd unrhyw weithgareddau yn daladwy.

Yn gadael Bethesda 10:00yb. Croeso cynnes i unrhyw un o drigolion pentref'r ardal.

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND
cludiant@ogwen.org
07394906036

## Carnifal Bethesda

**Sadwrn, 17 Mai am 1.00**

Gorymdaith yn cychwyn o'r Clwb Pêl-droed ac i lawr y Stryd Fawr am 1.10yp.
Yna diwrnod o hwyl ar gae'r Clwb Rygbi

Hefyd Stondinau Bwyd a Chrefftau
Cystadleuaeth Gwisg Ffansi a llawer mwy

## Sefydliad y Merched

**CARNEDDI**

Yn cyfarfod ar y nos Iau cyntaf o'r mis yn
Festri Capel Jerusalem
am 7 o'r gloch
Croeso cynnes i aelodau newydd

# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459)
henbarc13@gmail.com



**Pen-blwydd Arbennig**
Bu cryn ddathlu efo teulu J.R. Jones (Awelon, Rachub) wrth iddo gyrraedd y garreg filltir o 90 oed yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr!

## AIL RYFEL BYD

### APÊL AM WYBODAETH A LLUNIAU

Eleni mae 80 mlynedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd, ac i goffáu y rhai sydd wedi eu henwi ar y ddwy golofn fechan o boptu cofeb y Rhyfel Byd Cyntaf ym Methesda, rwyf yn ceisio casglu ychydig o hanes y 32 sydd wedi eu henwi arnynt. Er enghraifft lle maent wedi eu coffáu dramor, a faint oedd eu hoed pan gawsant eu lladd ayyb.

Os oedd un o'r rhai a syrthiodd yn perthyn i chwi, a bod gennych lun ohono, byddwn yn ddiolchgar iawn o gael gwneud copi er mwyn ei gynnwys yn y gwaith.

Bydd y llyfr, ar ôl ei gwblhau, yn cael ei roi yn Llyfrgell Bethesda gyda'r un sy'n ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Gellwch gysylltu â mi ar 01248 602117.

Gyda llawer o ddiolch,
André Lomozik.

## Capel Carmel

**Gwasanaethau**
(am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol)
Ebrill 20 (Pasg): Mr. D. Glyn Williams.
Ebrill 27: Parchg. Nerys Griffiths.
Mai 4: Parchg. John Pritchard.
Mai 11: Oedfa Cymorth Cristnogol yng Nghapel Jerusalem.
Mai 18: Oedfa gan yr Ysgol Sul a'r Clwb Dwylo Prysur.
Ysgol Sul: 10.30yb.
Clwb Dwylo Prysur: Nos Wener am 6.30yh.

CROESO CYNNES I BAWB

**Colli Aelod**
Mi gollom un o'n haelodau yng Ngharmel yn ystod y mis sef Mrs. Delia Davies, Tan y Gaer, Carneddi. Roedd y gwasanaeth cynhebrwng yn y capel, a'r gladdedigaeth ym Mynwent Coetmor. Rydan ni'n cydymdeimlo efo Sandra, Sheryl, Sharon, Rebecca a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

**Te Bach**
Daeth criw da i'r Te Bach ym mis Mawrth. Mi gawsom ni brynhawn braf a difyr wrth fwynhau'r te a'r sgwrsio. Roedd yr elw yn mynd tuag at beintio wyneb blaen y capel. Diolch i Nia am weu tegan meddal "Penri'r Peintiwr", i'r merched yn y gegin, wrth y drws, wrth y stondinau gwerthu a raffl, ac am roddion caredig hefyd. Diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u haelioni. Mi godwyd £770 tuag at y gwaith.



**Clwb Dwylo Prysur**
Mae'r genod yn cael hwyl ar ddysgu gwau dros yr wythnosau diwethaf yma. Maen nhw'n gwau capiau bychain i'w rhoi am bennau poteli diodydd *Innocent*. Mae'r cwmni hwnnw'n rhoi 30c i Age UK am bob potel sy'n cael ei gwerthu hefo cap. Diolch i ferched y Clwb Gwau hefyd sydd wedi gwau rhai o'r capiau yma. Mi fyddwn ni'n mynd â nhw i siop elusen Age Cymru ym Mangor. Hwyl ar y gwau!

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Siân ac Arfon Williams, Hen Barc, ar ddod yn Nain a Taid eto. Ganed mab bach, Amos Llywelyn, i'w merch Lois a'i chymar Imran yn y Gerlan.

**Dymuniadau gorau**
O fewn dyddiau i'w gilydd, yn nghanol mis Mawrth, roedd dau o drigolion Rachub yn dathlu eu penblwydd. Y ddau yn cyrraedd carreg filltir, sef, 90 mlwydd oed. Y gyntaf i ddathlu oedd Mrs. Margaret Bowen Rees, Sgwâr Rachub; a ychydig ddyddiau yn ddiweddarach, John R. Jones, Yr Ynys. Gobeithio eu bod wedi mwynhau y dathliadau.

**Clwb Hanes Rachub**
Croesawyd y naturiaethwr Ben Stammers i Glwb Hanes Rachub, i sgwrsio am ein 'Byd Natur Lleol a Gwarchodfa Aber Ogwen'. Roedd yn sgwrs hynod ddifyr; sgwrs a gefnogwyd gan nifer helaeth o luniau ar sgrin o bob math o adar ac anifeiliaid sydd i'w canfod yn lleol.

Yn ogystal â gweld y lluniau a dynnwyd gan Ben, cawsom y fraint o glywed y siaradwr talentog yn dynwared caneuon gwahanol adar hefyd! Arbennig iawn! Soniodd am effaith y tymhorau ar ein byd natur, yn ogystal ag effeithiau negyddol newid hinsawdd, newid patrwm ffermio, a newid ffordd o fyw yn gyffredinol – hyn yn cyfrannu at leihad yn niferoedd y rhywogaethau. Ond gwefreiddiwyd y gynulleidfa gan ffeithiau hynod ddiddorol am arferion rhai anifeiliaid ac adar, gan gynnwys y Ddrudwen, a'i dawn ryfeddol i ddynwared synau: roedd Drudwy yn Rachub yn gallu dynwared cân y Gylfinir, larwm car a hyd yn oed sŵn plant bach yn chwarae ar fuarth Ysgol Llanllechid! Er bod y Fran Goesgoch wedi diflannu o Chwarel Bryn bellach, mae hi'n dal i nythu mewn rhai tyllau yn Chwarel y Penrhyn, a phan fo'r cywion yn deor ac yn tyfu, daw nifer o deuluoedd y Brain Coesgoch â'r rhai bychain at ei gilydd i greu math o 'feithrinfa' er mwyn eu dysgu sut i hela a bwyta a.y.b. Clywyd hefyd am Gorhedydd y Waun, aderyn bach cryf, sy'n gallu hedfan a chanu ar yr un pryd, hyd yn oed pan fydd yn cael ei hela! Mae'r ymddygiad hwn yn rhoi neges bendant i'r ysglyfaethwr beidio â meiddio ymosod arno gan ei fod yn rhy gryf o lawer. A beth am y Wennol Ddu? Mae hwn yn aderyn anhygoel, un sy'n byw ei holl fywyd yn yr awyr bron iawn! Mae'n cysgu, bwyta, yfed a chymharu yn yr awyr! Mae'n gorfod dod i lawr i nythu, ac mae'n dal i wneud hynny'n lleol, e.e. yn y blwch nythu sy'n sownd yng Nghapel Carmel.

Trafodwyd hynt a helynt pob math o greaduriaid a gaiff eu gweld yn lleol, o lyffantod abrogaod Llyn Coch i adar diddorol Aber Ogwen. Gwelwyd lluniau o ddraenogod, ysgyfarnogod, pryfed, ac adar ysglyfaethus, heb anghofio'r llun bendigedig o Grëyr Glas yn torheulo! Mae sgwrs fel hyn yn gwneud i rywun sylweddoli cymaint o fywyd gwyllt sydd o'n hamgylch yn ein hardal hyfryd - a ninnau prin yn sylwi arno!

Diolch, Ben am sgwrs fendigedig; roedd y gynnulleidfa niferus yn werthfawrogol dros ben, a diolch hefyd i Gwen am gyflwyno a chroesawu!

Cofiwch am ein cyfarfod nesaf – cyfarfod olaf y tymor, (Ebrill 30ain, am 7 o'r gloch) pan gawn 'Sgwrs a Chân' gan Hogia'r Bonc.

**Mary Jones**
maryeds@hotmail.co.uk (07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Ysbyty**
Cofion a gwellhad buan i'r cyfeillion a enwir isod a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar:- Dyfrig Roberts, Stryd Fawr; Gwyn Williams, Carneddi; Margaret A. Jones, Pantglas

**Babi Newydd**
Llongyfarchiadau i Andrew a Hannah Lomozik, Pen y Bryn, ar enedigaeth Jack ar 24 Mawrth, brawd bach i Noah a Theo. Llongyfarchiadau hefyd i taid a nain Rhos y Coed, sef Andre a Sylvia Lomozik..

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Gwasanaethau Eglwys Crist**
Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn.

**Clwb Cant Glanogwen**
Enillwyr mis Chwefror
1af: Heulwen Roberts
2il: Gareth M. Owen

**Gwasanaethau'r Pasg:**
***Nos Iau Cablyd:***
Gwasanaeth am 7 yr hwyr yn Eglwys Glanogwen.

***Dydd Gwener y Groglith:***
Gwasanaeth 'Wrth y Groes' yn Eglwys Glanogwen am 2 y prynhawn.

***Dydd Sul y Pasg***
Cymun Bendigaid am 11 y bore.
Croeso cynnes i bawb i'r holl wasanaethau.

**Manylion Cyswllt**
Gellir cysylltu â'r Parchedig Sara Roberts ein offeiriad cynorthwyol ar 07967652981.

Mae'n diolch fel eglwysi Bro Ogwen yn ddiffuant iawn i Sara, sy'n gweithio'n galed iawn i lenwi pob bwlch yn ystod anhwylder ein ficer.

## Dyfodol Yr Eglwys

Mae cronfa'r Apêl yn dal i fynd, er mwyn cadw'r eglwys ar agor er defnydd y gymuned. Os hoffech gyfrannu, mae cronfa *Gofundme* yn dal ar agor, lle mae'n bosib cyfrannu'n uniongyrchol.
Neu beth am feddwl am drefnu rhyw achlysur i godi arian – mae pob cyfraniad yn help. Diolch o galon i bawb.

**Pen-blwyddi Arbennig**
Bu rhai yn dathlu pen-blwyddi arbennig yn ddiweddar. Pen-blwydd hapus a phob dymuniad da i Linda Hughes, Garneddwen, a ddathlodd ei phen-blwydd yn 70 oed ar 27 Mawrth.

Mae Heddwyn, Catrin, Caryl, Ella, Dion ac Elwyn yn dymuno pen-blwydd hapus i Helen Griffiths, Adwy'r Nant, a gyrhaeddodd 80 mlwydd oed ar 3 Ebrill.

**Llwyddiant Cerddorol**
Llongyfarchiadau i Caio Euron Jones, 'Hen Walia, Rhos y Coed, ar lwyddo "gyda rhagoriaeth" yn ei arholiad theori cerddoriaeth Gradd Un yn ddiweddar. Hyfforddir Caio gan Gerwyn Llwyd, Maes y Garnedd, a threfnwyr yr arholiad oedd Bwrdd Cysylltiol yr Ysgolion Cerdd Brenhinol.

**Clwb Gorffwysfan**
Cynhaliwyd cyfarfod o'r pwyllgor ar fore Llun, 3 Mawrth, gyda Rhiannon Efans yn y gadair, a'r aelodau canlynol yn bresennol: Brenda Hughes, Sylvia Griffiths, Linda Hughes, Rita Thomas, Ann Roberts, Joan Bullock, Marian Sullivan, Maureen Hughes, Gaynor Davies, Stella, Davies, Shela Hall, Dennis Dart, Edric Jones, Dilwyn Owen, Helen Williams, O.J. Evans a Joe Hughes. Cafwyd ymddiheuriad gan Ann Fôn Williams.

Anfonwyd cyfarchion y Clwb, trwy'r Cadeirydd, am wellhad buan i'r aelodau canlynol :-Val Amos, Bessie Buckley, Junior Dignam, Shirley Evans, Mair Griffiths ac Ann Fôn Williams.

Yn dilyn gair o groeso gan y Cadeirydd, darllenwyd cofnodion y pwyllgor a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2024. Yna cafwyd gair gan y trysorydd, a eglurodd fod sefyllfa ariannol y Clwb yn foddhaol. Atgoffodd yr aelodau y byddai yn Gorffwysfan ar y bore Llun cyntaf o bob mis i dderbyn arian y "Pêl Fonws". Diolchwyd i Helen am ei gwaith.

**Gwibdeithiau 2025**
Yn dilyn trafodaeth, pleidleisiwyd dros gynnal 5 gwibdaith yn ystod 2025:

1. **30 Ebrill**: Wyddgrug a Llangollen – Cychwyn am 8.30yb.
2. **27 Mehefin**: Gerddi Trentham – Cychwyn am 8.00yb.
3. **13 Awst**: Amwythig – Cychwyn am 8.00yb.
4. **24 Medi**: Southport – Cychwyn am 8.00yb.
5. **3 Rhagfyr**: Caer – Cychwyn am 8.30yb.

Blaendal yn codi i £5.00. Enwau a phob taliad i Joe o leiaf 2 ddiwrnod cyn pob gwibdaith. (Ni dderbynnir arian ar y bws.)

Penderfynwyd cynnal dau fore coffi yn Festri Jerusalem yn ystod y flwyddyn. Y cyntaf ar Sadwrn 26 Ebrill, a'r llall ar Sadwrn, 6 Rhagfyr.

Cyfarfod nesaf (Cyfarfod Blynyddol) i'w gynnal ddiwedd Mehefin neu ddechrau Gorffennaf.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Lea Davies, Deiniolen a fu farw yn 31 mlwydd oed. Cyfeiriwn ein cydymdeimlad dwysaf at y teulu ym Methesda, Mynydd Llandygai a Deiniolen, yn arbennig at Dale a Caio bach.

**Marw**
*Cordelia Mary Davies*
Ar 6 Mawrth yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Cordelia Mary Davies, Tan y Gaer, yn 84 oed. Priod annwyl y diweddar Nefydd Davies, mam annwyl a gofalus i Sandra, Sheryl, Sharon, Rebecca a'r diweddar Ken a Neil. Roedd hefyd yn nain a hen nain hoffus. Cynhaliwyd ei hangladd ar fore Llun, 31 Mawrth yng Nghapel Carmel, Llanllechid a mynwent Coetmor. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Dafydd Coetmor Williams, gyda Mrs. Helen Williams wrth yr organ. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Cegin Karen
Cacennau, Peis a Sawrus
Te Prynhawn a Bwffe ar gael
@CeginKaren Tel: 07886 560781
Ebost / Email: ceginkaren@btinternet.com

Elwyn Jones & Co
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224
*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*
*Swyddfeydd eraill:*
Llangefni (01248) 723106 | Porthaethwy (01248) 719517 | Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616 | Pwllheli (01758) 703000

# Cyngor Cymuned Bethesda

## Yr Eglwys Unedig

**Oedfaon**
Carem ddiolch i Ms. Karen Owen, Y Parchedig Nerys Griffiths, Mr. Richard Morris Jones, a'r Parchedig Anna Jane Evans am wasanaethau bendithiol dros ben yn ystod mis Mawrth. Diolch yn arbennig i'r rhai sydd yn llenwi'r Suliau gwag i ni, fel nad oes Sul eleni heb bregethwr.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cywiraf atoch chwi y rhai sydd yn methu mynychu'r oedfaon y dyddiau hyn, gan obeithio bod rhai ohonoch yn derbyn cysur o gael gwrando dros y ffôn. 'Rydym yn gwerthfawrogi'r dechnoleg newydd sydd yn gwneud hyn yn bosibl.

**Cyfarfod Gweddi Byd-Eang**
Cynhaliwyd y gwasanaeth arbennig yma yn gynnar yn y mis, gyda merched o wahanol eglwysi yn y Dyffryn yn cymryd rhan. Merched Ynysoedd Cook oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth eleni, a chawsom lawer o wybodaeth ddiddorol am yr ynysoedd. Gwnaethpwyd casgliad o £110.00, a chafwyd paned a byrbryd ar y diwedd. Diolch i Ceri am drefnu'r cyfan yn ôl ei harfer, ac i bawb a gymrodd ran mewn unrhyw ffordd.

**Y Gymdeithas**
Daeth deunaw o aelodau brwdfrydig i'r cyfarfod diwethaf, i brofi'n gwybodaeth mewn cwis byrlymus a baratowyd gan Nia, ein Trysorydd dawnus. 'Does dim diwedd ar ei gallu i osod cwestiynau difyr a gwreiddiol. 'Roedd y pum tîm am y gorau yn chwilio am atebion, a'r chwerthin a'r profocio'n brawf o fwynhad pob un ohonom. Rhaid nodi bod y marciau terfynol yn agos iawn, ac er na chawsom wobrau ariannol mawr, o leiaf 'chafodd neb gam!

Diolchodd Neville, y Cadeirydd, i Nia am ei pharodrwydd i roi o'i hamser a'i hegni i ddyfeisio noson o adloniant pur i ni. Cyn ei throi hi am adref, cawsom baned, bisgedi a chacennau cri blasus iawn wedi'u paratoi gan Beryl a Joe.

Edrychwn ymlaen at wahodd y Parchedig Wyn Roberts (Elvis) i'n cyfarfod nesaf ym mis Ebrill.

**Cyhoeddiadau'r Sul**
Ebrill 20: Trefniant mewnol (10) [Sul y Pasg]
Ebrill 27: Y Gweinidog
Mai 04: Undebol ym Methel (10)
Mai 11: Y Parchedig Olaf Davies (5) [Sul Cymorth Cristnogol]
Mai 18: Y Gweinidog
Mai 25: Mr Donald Pritchard (5)



Y Glyderau. Llun: Owain Evans

Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol o'r Cyngor ar nos Iau, 27ain o Fawrth yng Nghanolfan Cefnfaes ac yn rhithiol dros Zoom.

**Maes Parcio Gerlan**
Braf iawn cael nodi fod yr anhawsterau gyda'r Gofrestfra Tir bellach wedi'w datrys, a bod y Clerc yn disgwyl am y dogfennau perthnasol gan y cyfreithwyr. Yn dilyn pryniant y tir, mae'r Cyngor yn gobeithio gwireddu'r prosiect hwn cyn gynted â phosib, cyn belled nad oes unrhyw faterion eraill yn codi yn y cyfamser.

**Rhoddion**
Yn dilyn hysbysiad rhoddion y Cyngor, nodwyd fod llawer o fudiadau lleol wedi derbyn rhodd. Dyma restr o'r mudiadau oedd yn llwyddiannus:

| | |
|---|---|
| Llais Ogwen | £500.00 |
| Clwb Camera Dyffryn Ogwen | £150.00 |
| Apêl Cronfa Cyfle i bawb yr Urdd | £100.00 |
| Ambiwlans Awyr Cymru | £200.00 |
| Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen | £150.00 |
| Hwb Ogwen | £500.00 |
| Theatr Bara Caws | £300.00 |
| Urdd Gobaith Cymru | £100.00 |
| Nant Ffrancon Brownies | £50.00 |
| Dawns i Bawb | £100.00 |
| Academi Darts | £100.00 |
| Clwb Criced a Bowlio Bethesda | £300.00 |
| Radio Ysbyty Gwynedd | £100.00 |
| Sefydliad y Merched Carneddi | £50.00 |
| Marie Curie | £50.00 |
| Eglwys Glanogwen | £500.00 |
| Eisteddfod Dyffryn Ogwen | £500.00 |

**Arolygon Cymunedol – Newid Ffiniau**
Derbyniwyd gohebiaeth gan Gyngor Gwynedd am gynnal adolygiad cymunedol o dan adrannau 25 a 31 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Mae hyn yn golygu ystyried newidiadau posib i ffiniau rhai cymunedau penodol o fewn Gwynedd a wardiau pob cymuned. Cynigwyd newid y ffin sydd ar hyn o bryd yn mynd drwy stad tai Llwyn Bedw. Mae'r stad ar hyn o bryd wedi'w rannu, gyda 10 tŷ ym Mhlwyf Llanllechid, a 2 dŷ ym mhlwyf Bethesda. Y cynnig yw i newid y ffîn i gynnwys gweddill stad Llwyn Bedw ym mhlwyf Bethesda. Cynhelir cyfnod ymgynghori cyhoeddus ar y cynigion drafft rhwng 28 Mawrth a 23 Mai 2025.

**Ymweliad Tîm Thacluso â Ward Gerlan**
Adroddwyd fod Tîm Tacluso Cyngor Gwynedd wedi ymweld â ward Gerlan rhwng y 10fed a'r 14eg o Fawrth. Hoffai'r Cyngor ddiolch iddynt am gwblhau gwaith gwych o fewn yr ardal.
Mi fydd y cyfarfod cyffredinol nesaf yn cael ei gynnal ar yr 24ain Ebrill 2025 am 19.00 yng Nghanolfan Cefnfaes.

**Llais Ogwan**

*Pob deunydd i law erbyn dydd Sadwrn, 26 Ebrill os gwelwch yn dda.*

# Y Gerlan

**Caren Brown**
07789 916166
carenelaine@hotmail.com

**Babi newydd**
Llongyfarchiadau mawr i Dewi a Cêt, Rallt Uchaf, sydd bellach yn Nain a Thaid am y tro cyntaf. Ganwyd Nico John Williams ar y 18$^{fed}$ o Fawrth i Cadi Elen a Gwion John sydd yn byw yng Nghaernarfon erbyn hyn. Mae Nel wedi gwirioni'n cael bod yn fodryb, a phawb wedi dotio at yr un bach. 'Da ni'n edrych ymlaen i'w groesawu i Gerlan yn fuan!

Llongyfarchiadau i Gwyndaf Roberts, Ffordd Gerlan, sydd yn Daid unwaith eto. Ganwyd Lotti i Mared a Bradley yn mis Rhagfyr, a'r 3 yn byw yn Nghoed Mawr, Bangor erbyn hyn.

**Gwobr Dewis y Bobl 2025**
Llongyfarchiadau i Vasilis Politis, Tŷ Slatters, ar ennill Gwobr Dewis y Bobl yn Storiel yn ddiweddar. Cyflwynodd Vass ei fodel o Chwarel Penrhyn i'r arddangosfa Agored yn yr oriel. Mae ei fodelau'n arbennig iawn ac wedi eu harddangos mewn sawl arddangosfa yn y DU a thu hwnt.



**Ymddeoliad Hapus**
Dwi'n siŵr y bydd Huw ag Amanda Davies, Tŷ Dŵr, yn dod o hyd i ddigon i'w wneud wrth i'r ddau ohonynt ymddeol ddiwedd Mawrth. Pob dymuniad da i chi ar y bennod newydd yn eich bywyd - gobeithio cewch chi gyfle i ymlacio a mwynhau profiadau newydd.

**Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n cystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd yn ddiweddar. Dwy sydd wedi bod yn fuddugol ydi Mali Non a Nanw o Gwernydd – y ddwy'n llefaru. Pob lwc i chi yn yr Eisteddfod Sir genod.

**Dathlu 40**
Llongyfarchiadau i Richard a Rhian Ogwen, a fu'n dathlu eu priodas rhuddem yn ddiweddar. Gobeithio eich bod wedi mwynhau dathlu efo teulu a ffrindiau a'r gwyliau yn y Caribî.

## Caban Gerlan

Prosiect Caffi Thrwsio Gerlan (dydd Sul y 23$^{ain}$ o Fawrth)



Diolch i bawb ddaeth draw i'r Caffi Trwsio Cyntaf yn y Caban ar y 23$^{ain}$.

Cawsom fore gwych yn trafod y cynlluniau ar gyfer Caffi Thrwsio newydd a daeth un person mor bell â'r Ariannin atom i rannu profiadau a syniadau.



Daeth Robyn Meredydd atom o Bartneriaeth Ogwen hefyd er mwyn rhannu gwybodaeth am Lyfrgell y Pethau a fydd yn helpu trigolion yr ardal i arbed arian a lleihau gwastraff. Mae'r caffi trwsio yn falch iawn o gael dechrau cydweithio efo'r Llyfrgell trwy rannu a thrwsio offer.

O hyn allan, bydd y caffi trwsio'n cael ei gynnal dydd Sul olaf pob mis efo'r un nesaf rhwng 11 ac 1, ar y 27$^{ain}$ o Ebrill.

Dewch draw efo beth bynnag sydd gennych i'w drwsio er mwyn gweld os fedrwn ni eich helpu. Ella bod chi'n dda am drwsio rhywbeth eich hun, a'n awyddus i rannu eich sgiliau efo rhywun arall neu efallai eich fod awydd cwmni, paned a busnesu beth sydd yn mynd ymlaen.

Beth bynnag sydd gennych mewn golwg - mi fyddwn ni'n falch iawn o'ch gweld ac yn edrych ymlaen at ddatblygu menter gymunedol ddifyr y bydd y gymuned a'r blaned yn elwa ohono

**Dathlu Mai**
Yn anffodus, bu'n rhaid i ni ohirio ein digwyddiad Pasg ond 'rydym wedi penderfynu cynnal diwrnod hwyl debyg i deuluoedd yn y pentref ar y 10$^{fed}$ o Fai yn Y Caban, rhwng 10 a 12. Bydd cyfle i chwarae gemau, creu celf a chrefft a mwy. Bydd mwy o fanylion yn fuan ar ein tudalen Facebook a'r gwefannau cymdeithasol.

**Logo Newydd Caban Gerlan**
Diolch i'r holl blant a phobl ifanc fu'n ein cefnogi yn ddiweddar er mwyn ceisio dylunio logo newydd i'r Caban. Tyda ni ddim wedi dewis cynllun eto ond yn cydweithio'n agos efo dylunydd ar hyn o bryd. Edrychwch allan am y logo newydd yn fuan!

**Cydymdeimlo**
Gyrrwn ein cydymdeimlad at Dic, Caren ac Elin, Ffordd Gerlan. Bu farw mam Dic, Ella Roberts, yn dawel yn ei chartref ym Mhenrhyndeudraeth ar y 21$^{ain}$ o Fawrth. Budd angladd i ffarwelio a dathlu ei bywyd yn cael ei gynnal ar y 12$^{fed}$ o Ebrill.
Cofion cynnes at y teulu i gyd.

Gyrrwn ein cydymdeimlad at Gerallt a Dylan Williams, eu chwaer Nerys a'u teuluoedd wedi iddynt golli eu modryb yn ddiweddar. Bu farw Anti Betty (Betty Riley) yn Stoke on Trent yn 96 oed. Roedd yn wraig i'r diweddar Johnny, a chwaer i'r diweddar Len, Hywel a Benny. Mam i Robert a'r diweddar Martyn a Jennifer, nain a hen nain annwyl iawn.

Cafodd Betty ei magu'n Gerlan a bu'n byw yn yr Hen Bost. Er ei fod wedi symud i ffwrdd ers tua 70 o flynyddoedd, gan fyw yn Cyprus, Hong Kong a Lloegr i enwi rhai, chollodd hi ddim o'i Chymraeg na'i Chymreictod.

Ogwen
Adferiad Corfforol
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN
Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein 07743373895 | info@ogwenphysical.co.uk | ogwenphysical.co.uk
Bethesda RFC Dol Dafydd, Bethesda, Bangor LL57 3NE

# Partneriaeth Ogwen



### Celf Stryd Fawr gan disgyblion Penybryn a Llanllechid

Ydych chi wedi sylwi ar y gwaith celf ar y Stryd Fawr ac yng Nghanolfan Cefnfaes? Mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 Ysgol Penybryn ac Ysgol Llanllechid wedi bod yn mwynhau mewn cyfres o weithgareddau, diolch i gyllid gan y Grŵp dros Addysg mewn Amgueddfeydd. Dros y misoedd diwethaf, mae Partneriaeth Ogwen wedi bod yn gweithio gyda Storiel, MSparc ar y Lôn, Mwydro, a Gwasanaeth Archifau Gwynedd i ddarparu cyfleoedd dysgu ymarferol i'r disgyblion gysylltu â'u treftadaeth, a chyfle i ddysgu mwy am Ganolfan Dreftadaeth Yr Hen Bost.

Yn eu gweithdy gyda MSparc ar y Lôn, cafodd y disgyblion gyfle i greu delweddau digidol drwy roi eu troeon unigryw a lliwgar ar hen luniau o Chwarel Penrhyn. Mae rhai o'r gweithiau celf hyn yn cael eu harddangos yn ffenestri Partneriaeth Ogwen ar y Stryd



Fawr a hefyd yng Nghanolfan Cefnfaes ar hyn o bryd.

Bu'r disgyblion hefyd yn cael cyfle i greu delweddau digidol GIFs o'u hoff lefydd yn Nyffryn Ogwen, roi eu barn ar yr hyn yr hoffent ei weld yng Nghanolfan Yr Hen Bost. Buont yn archwilio patrymau cerfio llechi traddodiadol gyda'r artist lleol Mr Kobo, ac yn dysgu am y diwylliant o gyfeillgarwch rhwng y chwarelwyr. Diolch yn fawr i'r bobl ifanc brwdfrydig am gymryd rhan!



### Huw Davies a Bethan Roberts yn Gadael y Bartneriaeth

Ym mis Mawrth bu'n rhaid i Bartneriaeth Ogwen ffarwelio â dau o'n cydweithwyr annwyl – Bethan Roberts a Huw Davies – sydd wedi gadael am borfeydd newydd.



Mae Bethan wedi bod efo ni ers 2017, pan ddechreuodd fel Swyddog Gweinyddol. Aeth ymlaen wedyn i glercio yn gyntaf ar Gynghorau Cymuned Llandygai a Llanllechid, ac yna Cynghorau Cymuned Bethesda a Llandygai. Mai di bod yn bleser cael Bethan fel cyd-weithwraig dros y



blynyddoedd, merch oedd bob amser efo gwên ac yn gwneud i ni gyd chwerthin. Dymunwn y gorau iddi yn ei rôl newydd efo Llywodraeth Cymru. Yn bendant ni fydd 26 Stryd Fawr yr un peth hebddi hi!

Mae Huw wedi bod yn gweithio i Bartneriaeth Ogwen ers 6 mlynedd. Ei rôl gyntaf oedd sicrhau cyllid gan y Loteri Genedlaethol ac yn gweithio fel rheolwr Dyffryn Gwyrdd, a greodd sawl swydd yn yr ardal a rhoi hwb i rwydwaith trafnidiaeth werdd i atal tlodi trafnidiaeth yn Nyffryn Ogwen. Wedi hynny bu'n rheolwr Dyffryn Caredig, sy'n canolbwyntio ar drafnidiaeth werdd ac sydd wedi bod yn gaffaeliad aruthrol i fywydau llawer o bobl leol. Mae Huw yn ymddeol i dreulio amser gyda'i wraig, Amanda – a dymunwn yn dda iddynt ar eu holl anturiaethau!

### GwyrddNi

Mae tyfu ein bwyd ein hunain yn lleol yn ffordd bwerus o gymryd rheolaeth dros ein dyfodol, cefnogi ein cymunedau, a mwynhau bwyd mwy ffres, iachach. Trwy ddibynnu llai ar archfarchnadoedd mawr a chadwyni cyflenwi hir, rydym yn cadw arian yn lleol, yn cryfhau ein cymunedau, ac yn creu diogelwch bwyd yn lleol.

"Tydw i byth eisiau clywed bod rhywun ym Methesda ddim yn gallu fforddio bwyd ffres," meddai Vicki, gwirfoddolwr yng Ngerddi Ffrancon ers 4 mlynedd. "Dwi'n credu mewn cymuned yn gryf iawn, ac mewn cynaliadwyedd bwyd."

Mae Vicki yn un o lawer o bobl sydd wedi bod yn rhoi eu dwylo yn y pridd, yn plannu hadau ac yn rhoi eu hamser tuag at dyfu bwyd yn lleol. Mae gardd gymunedol yn ffordd o gael y cyfle i dyfu bwyd heb fod yn berchen ar dir eich hun, i gymdeithasu, i gadw'n iach ac i fod yn rhan o rywbeth llawer mwy.

Dros y DU, mae miloedd o erddi cymunedol wedi dod i'r amlwg dros y blynyddoedd diwethaf, hefo mwy a mwy o bobl yn wynebu ansicrwydd bwyd ac eisiau sicrhau bwyd iach, cynaliadwy.

Mae Gerddi Ffrancon (wrth ymyl y Ganolfan Hamdden ym Methesda) yn ardd gymunedol gan Dyffryn Gwyrdd (Partneriaeth Ogwen), lle mae gwirfoddolwyr yn cyfarfod 2-3 gwaith yr wythnos i dyfu bwyd, ac i ddysgu a rhannu sgiliau. Bu'r criw yn creu jam dros y gaeaf hefo'r ffrwythau a dyfwyd dros haf llynedd.

Mae sesiynau gwirfoddoli yn cael eu cynnal yng Ngardd Ffrancon o leiaf dwywaith yr wythnos – cysylltwch hefo chris@ogwen.org i fod yn rhan o hyn!

Bydd digon o bethau i'w wneud, a phobl yna i'ch helpu chi – p'un a ydych yn berson garddio neu nad ydych erioed wedi gafael mewn rhaw o'r blaen!

# YSGOL BODFEURIG

**Eisteddfod Bodfeurig**
Eleni, am y tro cyntaf mewn côf cynhaliwyd Eisteddfod Bodfeurig. Cafwyd gwledd o gystadlu – canu, llefaru, chwarae piano, chwarae gitar, corau, partion canu, partion llefaru, dawnsio gwerin yn ogystal a llawer o gystadlaethau celf a chrefft. Coronwyd y cyfan gyda cystadleuaeth y gadair am ysgrifennu stori. Llongyfarchiadau mawr i bob un fu'n cystadlu – a diolch i'r rhieni ddaeth i'r cyngerdd arbennig yn dilyn yr Eisteddfod. Roedd hi'n bendant yn wythnos i'w chofio!



**Ymweliad Ysgol Dyffryn Ogwen**
Diolch yn fawr i Ysgol Dyffryn Ogwen am wahodd disgyblion blwyddyn 4 yno i fore blasu. Roedd yn cyfle iddynt ddod yn fwy cyfarwydd gyda'r ysgol cyn cael profiad bendigedig o goginio cacenau cri. Diolch yn fawr am y croeso!



**Gweithdy Barddoniaeth**
Cafwyd diwrnod gwych wedi ei ysbrydoli gan natur pan ddaeth Martin Daws a Buddug Roberts i'r ysgol i gynnal gweithdy barddoniaeth ac ysgrifennu. Roedd dosbarth Ogwen wedi rhyfeddu wrth ddefnyddio technoleg Plant Choir i greu cerddoriaeth gyda'r synnau sy'n teithio trwy blanhigion. Ysgrifennodd y dosbarth gerdd cyn defnyddio'r gerddoriaeth fel cefndir i'r gerdd. Yn y cyfamser roedd hanner arall y dosbarth yn cael cyfle i chwarae gemau oedd yn datblygu eu iaith cyn defnyddio syniadau i ysgrifennu yn greadigol. Diolch o galon Martin a Buddug am ddiwrnod gwych.



**Amser Gwyllt**
Mae blwyddyn 6 wedi bod yn ffodus iawn dros yr wythnosau diwethaf i gael sesiynau 'Amser Gwyllt' o dan arweiniad un o rieni'r ysgol. Maent wedi bod yn dysgu sgiliau awyr agored yn ogystal a chael cyfle i drafod a paratoi ei hunain ar gyfer trosglwyddo i'r uwchradd ym mis Medi. Dyma brofiad gwerthfawr i bob un!







# Côr y Penrhyn

## gyda Derfel Roberts



**Ymuno â'r côr yn ddiweddar**

Mr Paul Rowlinson T2 Rachub wedi ail ymuno ar ôl cyfnod o absenoldeb oherwydd prysurdeb mawr mewn gwahanol feysydd. Bu'n athro gwyddoniaeth ac yn gyfieithydd medrus yn ogystal ag ymgeisydd am swydd aelod seneddol dros Blaid Cymru yn Sir y Fflint.

Mr Elfyn Roberts, B2 Bryn Caseg wedi ail ymuno ar ôl cyfnod o absenoldeb i ganolbwyntio ar fagu teulu a gofalu am gyfrifoldebau teuluol. Mab y diweddar Harri Roberts ydy Elfyn a bu Harri'n un o hoelion wyth y côr am flynyddoedd gyda'i lais bas dwfn yn rhoi sylfaen gadarn I donyddiath y côr. Bydd gan Elfyn sialens fawr o'i flaen wrth geisio efelychu a dod i esgidiau ei dad.

Mr Huw Derfel Jones, T2 Gerlan. Er mai newydd ymuno â Chôr y Penrhyn mae Huw, mae'n gantor profiadol gan iddo fod yn aelod o Gôr Plant y Gerlan neu gôr Anti Hannah pan oedd o'n ifanc. Wedi hynny bu'n canu gyda Chôr Rygbi Gogledd Cymru.

Peter Cook, T2, Y Felinheli. Cyn fferyllydd ydy Peter wedi symud ar ôl ymddeol i fyw i'r Felinheli. Mae'n brysur yn dysgu Cymraeg ac yn cael pob anogaeth I lwyddo mewn côr sy'n cynnal ei weinyddiaeth a'I ymarferion trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Dau hen law**

Hyfrydwch ydy gallu cyhoeddi bod dau aelod o'r côr wedi cyrraedd eu 90 oed. Mae John R Jones, brodor o ardal Dolgellau, ond sydd bellach wedi cartrefu yn Rachub, newydd ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed a bu'n mwynhau pryd o fwyd dethol efo'r teulu ym Miwmares. Yr aelod arall sydd eisoes yn 90 oed ydy Fred Buckley, cyn-yrrwr loriau ac un o weithwyr allweddol Chwarel y Penrhyn. Mae Fred wedi bod yn aelod diwyd o'r côr ers sawl blwyddyn, gan gymryd y cyfrifoldeb o osod y cadeiriau yn eu lle ar gyfer pob ymarfer. Rhai gwerth eu halen fu aelodau fel Fred erioed - un sy'n gweld yr angen a gweithredu arno heb gŵyn na chlod.


**JOHN ROBERTS**

**Paentiwr**
**Papurwr**
**Teilsiwr**

**Symudol:** 07747 628650
**Ffôn:** 01248 600995


### Ffotograffydd newydd

Mae Lee Evans wedi ei benodi'n ffotograffydd newydd y côr ac isod cyhoeddir llun o'i waith yn dangos yr aelodau ar Safle Pantdreiniog yn ddiweddar.



Y côr ar safle hen chwarel Pantdreiniog ym Mis Mawrth 2025: Llun: Lee Evans

**Mendio**

Mae Tom Williams, T2 Hen Barc yn raddol wella o'i afiechyd a bydd yn ôl yn ei morio hi efo'r côr yn fuan. Mae Tom eisoes yn un o brif sêr Hogia'r Bonc a rhyfedd fyddai unrhyw gwmnïaeth heb ei ddawn arbennig i gynnal sgwrs a hwyl. Bu Tom yn gyn-swyddog uchel ei barch yng Nghyngor Arfon a Gwynedd cyn ymddeol.

**Tabledau Electronig**

Gyda chymorth Elusen Ogwen mae'r côr wedi llwyddo i ddarparu'r teclynnau electronig uchod i aelodau'r côr. Er nad yw pawb yn hollol hyddysg a hyderus wrth ddefnyddio technoleg o'r fath mae nifer o aelodau wedi anfon gair at Alun Davies, rheolwr y côr, i ddweud pa mor falch ydyn nhw o dderbyn y padiau neu'r tabledi electronig. "Maen nhw'n gwneud hi'n haws dod o hyd i ganeuon na chopïau papur", meddai un ac "maen nhw'n hwylus i'w cario ac i'w defnyddio," meddai un arall.

**Canu i achos da**

Bydd y côr yn cymryd rhan mewn cyngerdd elusennol yng Nghadeirlan Bangor a Fai 16 yng nghwmni Lleisiau'r Mignedd a Cônarfon. Mwy o fanylion i ddilyn.

**Henllys**

Cafwyd cyngerdd llwyddiannus iawn yn Henllys, Biwmares ar 20 Mawrth gyda'r Neuadd yn orlawn a'r gynulleidfa yn mwynhau perfformiad y côr yn fawr. Yr unawdwyr ar y noson oedd Raymond Roberts, Tenor, a John Outram Bariton.

**Caneuon newydd**

Bu'r côr yn brysur yn dysgu caneuon newydd, i rai o leiaf. Un gân sy'n cael ei hatgyfodi yw *'Ave Verum Corpus,'* (Mozart) a'r llall yw *'The Seal Lullaby'* (Eric Whitacre). Dwy gân cymharol dawel eu naws yw'r rhain a bydd edrych ymlaen yn eiddgar i glywed y caneuon hyn ym mherfformiadau'r côr.

**Gwasanaeth Coffa**

Bu'r côr yn canu yn y gwasanaeth coffa i Sarah gwraig Daniel Williams o'r Felinheli. Mae Daniel yn aelod brwd o'r Bas 2 ac achlysur trist i'r holl aelodau oedd perfformio yn y gwasanaeth. Roedd Sarah yn wraig ddewr a frwydrodd yn hir yn erbyn ei salwch ac at hynny roedd hi'n ferch ddymunol a charedig. Cydymdeimlwn â'r holl deulu yn eu trallod.

**Canada**

Mae'r trefniadau i deithio i Toronto yn Ontario, Canada yn mynd yn mynd yn eu blaenau'n dda. Mae trefniadau wedi eu gwneud i ganu yng ngŵyl Cymry Gogledd America yn Ottawa, prifddinas y wlad, yn niwedd Awst a dechrau Medi. Bu noson wedi ei threfnu gan gwmni teithio Menai yn Ngwesty'r Celtic Royal yng Nghaernarfon ar 27 Mawrth. Bu honno hefyd yn noson llwyddiannus dros ben.

# YSGOL RHIWLAS

### Gwasanaeth Dydd Gŵyl Dewi

Ar ddechrau'r mis, braf oedd cael croesawu llond neuadd o rieni a ffrindiau'r ysgol i'n gwasanaeth Gŵyl Dewi. Diolch i chi gyd am ein cefnogi unwaith eto eleni.

### Cynllun Ffrindiau Bardd Plant Cymru

Roedd yn braf cael croesawu Rebecca Wilson – actores ac awdures dalentog o Ddinorwig - i weithio gyda disgyblion cyfnod allweddol 2 mewn gweithdy ysgrifennu fel rhan o gynllun Ffrindiau Bardd Plant Cymru. Cafwyd prynhawn difyr iawn.

### Diwrnod y Llyfr

I ddathlu diwrnod y llyfr eleni, cawsom lawer iawn o hwyl gyda'r disgyblion wrth iddyn nhw gyrraedd yr ysgol wedi gwisgo fel eu hoff gymeriadau.

### Ymddeoliad Anti Einir

Wrth i ni ddod at ddiwedd tymor, byddwn yn ffarwelio ag Anti Einir sydd wedi rhoi dros 30 o flynyddoedd o wasanaeth i Ysgol Rhiwlas. Mi fydd hi'n golled fawr yma hebddi gan ei bod hi wedi gweld llawer o wynebau yn mynd a dod dros y blynyddoedd. Fe hoffem gymryd y cyfle i ddymuno ymddeoliad hapus iawn iddi ac rydym yn gobeithio y bydd hi'n picio i mewn i ddweud helo o dro i dro. Ar ran yr ysgol, rhieni, cyn-ddisgyblion a'r pentref, hoffem ddiolch o waelod calon i Anti Einir am ei holl waith caled. Traed i fyny rŵan!



### Eisteddfod Cylch

Rydym yn falch iawn o'r plant a gystadlodd yn Eisteddfod Cylch Bangor Ogwen yn ddiweddar. Wrth gystadlu gyda'r canu a llefaru, cawsant brofiad gwerthfawr iawn o berfformio unwaith eto. Diwrnod llwyddiannus iawn. Da iawn chi!



### DJ Endaf

Pleser oedd cael croesawu DJ Endaf i'r ysgol i gynnal gweithdy cerddoriaeth electronig. Roedd plant cyfnod allweddol 2 wedi cael blas ar gynhyrchu traciau eu hunain ar *Garage Band* a dysgu llawer o sgiliau eraill yn y maes electro. Pwy a ŵyr na welwn ni rai ohonyn nhw mewn bandiau eu hunain ymhen amser?


BARBWR OGWEN
Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Natasha

DAFYDD CADWALADR
CYNHYRCHION COEDLANNOL
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

Londis
BETHESDA
01248 605566
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig, Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531 | 01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

CHRIS GRIFFITHS CYF
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu
18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369
neu 07813 455653

Mark Davies
07447804110
Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans
Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs
mark@mdcaravans.cymru
MCEA

Gareth Williams
TREFNYDD ANGLADDAU
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

## Rhiwlas

**Annes Glynn,** Bwthyn Cefn Braich,
Rhiwlas LL57 4HB
annes.glynn@gmail.com
(01248) 351015

### Capel Shiloh Newydd, Rhiwlas

**Gwasanaethau'r Sul**
Dyma fanylion y gwasanaethau sydd i'w cynnal yn y Neuadd am 10 o'r gloch ar y Suliau canlynol:

**Mai 11 (Sul Cymorth Cristnogol)**:
Parch. Olaf Davies
**Mai 18:** Parch John Gwilym Jones

Croeso cynnes i bawb.

**Cofio Ann, Cae Mawr**
Gyda thristwch y clywsom am farw Ann Williams, Cae Mawr, ar Fawrth 23 ar ôl cyfnod byr o salwch. Un o Gaer oedd Ann yn wreiddiol ac ar ôl priodi Selwyn Williams o'r pentref fe fuont yn byw mewn gwahanol rannau o Loegr cyn symud yn ôl i Gymru efo'u teulu ac ymgartrefu ym Mhorthaethwy. Ymhen amser, a Selwyn erbyn hynny yn gweithio fel Peiriannydd Comisiynu'r Cynllun Trydan Dŵr yn Dinorwig, gwnaethant eu cartref yng Nghae Mawr wrth ymyl y tir lle bu Selwyn yn ffermio cyn hynny ger Pen Ffridd.

Un fu'n gymydog i Ann am chwarter canrif yw Kate Wheelock, Bronnydd. "Fe fu hi'n ffrind mor gefnogol a chlên," meddai Kate, "ac mi wna'i ei cholli hi'n fawr iawn. Roedd ganddi hi'r ddawn ryfeddol 'ma o wneud ffrindiau newydd – pobol oedd wedi symud i fyw i'r ardal, pobol oedd hi wedi eu cyfarfod mewn caffi yn y dre ac wedi mwynhau eu sgwrs am eu bod nhw mor ddifyr."


Ann yn ei helfen yn y clwb Tenis Bwrdd

"Roedd hi'n eithriadol o garedig, byth yn feirniadol, ac o gymorth i bawb. Un o'r cymwynasau olaf wnaeth hi oedd mynd ag un arall o'i chymdogesau i apwyntiad ysbyty am nad oedd ei char hi ar gael y diwrnod hwnnw."

Mae Kate hefyd yn cofio ei gweledigaeth a'i hegni yn mynd ati i sefydlu'r Clwb Tenis Bwrdd yn y Neuadd tua deg mlynedd yn ôl bellach, clwb sy'n parhau i fod mor boblogaidd ag erioed. "Mi sylweddolodd hi nad oedd gan y Neuadd lawer o arian ar y pryd a dyma hi'n mynd ati i drefnu sesiynau tenis bwrdd ddwywaith yr wythnos."

I unrhyw un fu'n ymweld â chaffi'r WRVS, fel yr oedd bryd hynny, yn Ysbyty Gwynedd fe fydd wyneb Ann yn un cyfarwydd iawn gan iddi fod yn rheolwr gwirfoddol y caffi am sawl blwyddyn. Fe fu hi hefyd yn llywydd Clwb Rhiwen yn y pentref am rai blynyddoedd cyn ysgwyddo baich gwaith yr ysgrifennydd yn ogystal yn ddiweddarach. Dilys Parry oedd trysorydd y Clwb am nifer o flynyddoedd ac mae ganddi hithau atgofion hapus ohoni:

"Y tro cynta' welish i Ann erioed roedd hi'n marchogaeth ceffyl wrth ymyl Cefn Braich. Roedd ganddi hi'r ddawn o dynnu pobol ati, lle bynnag roedd hi, ac wrth ei bodd yn sgwrsio efo pobol. Mi fydd yn chwith mawr, mawr ar ei hôl hi," meddai Dilys. "Roedd hi'n licio cael hwyl ac mi fyddai hi'n deud yn aml nad ydan ni ddim yn chwerthin hannar digon. Roedd hi'n un o fil."

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i blant Ann – Clive, Glyn, Ian a Helen – a'u teuluoedd, yn eu colled a'u hiraeth.

**Clwb Ieuenctid**
Cynhaliwyd parti diwedd tymor presennol y Clwb Ieuenctid nos Fawrth, Mawrth 25, pryd y cafwyd Helfa Drysor, cyfle i wneud cacennau Pasg a mwynhau gemau gwahanol. Cafwyd tymor o weithgareddau amrywiol, diolch i'r arweinwyr Efa Lewis Roberts ac Ellen Thomas. Mae'n wych gweld clwb o'r fath yn cael ei gynnal yn y pentref unwaith eto.




**Bwrdd dartiau**
Mae gan y Neuadd Bentref fwrdd dartiau newydd sbon erbyn hyn - adnodd gwych i fynd efo'r bwrdd pŵl yno. Os am gêm, cysylltwch ag Elfyn, Cadeirydd Pwyllgor y Neuadd, i drefnu slot. Hwyl i chi gyd ar y chwarae!

**Noson Cwis**
Gair i'ch atgoffa y bydd y noson Cwis nesaf, a drefnir gan Gyfeillion Rhiwlas, ar nos Sadwrn, Mai 10 yn y Neuadd am 6.30 p.m. Dewch yn llu!

L. STURRS
A'I FEIBION
SEFYDLWYD YN 1965
ADEILADWYR
HEN IARD STESION,
FFORDD Y STESION, BETHESDA
FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com

### Merched y Wawr

Cawsom ein sboelio'n rhacs yn ein cyfarfod ym mis Mawrth - pawb ond un aelod fu'n brysur eithriadol yn y gegin! Mi aeth Kate ati i goginio crempogau blasus inni i gyd a chafodd pawb flas garw arnyn nhw a blas ar y sgwrs o gwmpas y bwrdd wedyn hefyd. Nia ac Annes oedd yn gyfrifol am y baned ac enillwyd y raffl gan Mari. Rydym yn cyfarfod am 1.30 o'r gloch ar yr ail brynhawn Mawrth yn y mis a bydd cyfarfod Mai, ar y 13eg, dan ofal Catherine.



## Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dôl Helyg, Talybont (353500)

**Cartrefi newydd**

Croeso cynnes i Maria Taggart sydd wedi dod i fyw i rif 7 Dôl Helyg. Mae Maria yn gweithio i'r gyfres deledu boblogaidd 'Rownd a Rownd'. 'Fydd hi ddim yn hir nes bydd hi'n siarad Cymraeg yn rhugl , ond mae angen inni, fel cymdogion, ei hannog a'i helpu. Mae hi'n byw drws nesaf ond un i Abbie, sydd yn gychwyn da iawn iddi ar ei 'thaith ieithyddol'. Gobeithio y byddi'n hapus iawn yn ein plith, Maria.

Ar yr un pryd, rydan ni wedi gorfod ffarwelio â Natasha, Jez, Alexa a Leyla, sydd wedi symud o 12 Dôl Helyg i Shavington yn Swydd Gaer. Dymunwn bob dedwyddwch iddynt yn eu hardal newydd. Mae'n rhyfedd hebddynt ar ôl cymaint o flynyddoedd ond, â gweddill y teulu'n dal i fyw yn lleol, gobeithio y cawn eu gweld yn eithaf aml.

**Llongyfarchiadau**

Mae Liz (Tacsis), 6 Lôn Ddŵr, wedi dod yn Hen-nain am y tro cyntaf, a Natalie, 6 Cae Gwigin, merch ieuengaf Liz a'r diweddar annwyl Derek, yn Nain.

Ar Fawrth 26ain, cafodd ei mab Leon a'i gymar Chloe, fab bach. Freddy yw ei enw.

Anfonwn ddymuniadau gorau i'r teulu bach, fydd yn symud i gartref newydd yn fuan.

**Babi newydd**

Mae Megan, 4 Bro Emrys, wedi cael chwaer fach. Ganwyd Casi i Catrin a Brad ar Fawrth 21ain. Croeso i'r byd Casi bach, a phob bendith arnoch fel teulu.

**Brysiwch wella**

Nid pawb sy'n dymuno gweld ei enw yn y papur bro, ond gwn am nifer o bobl o'n cwmpas sydd wedi cael mân anafiadau neu golledion; yn dioddef poen, neu'n teimlo'n unig. Gobeithio eu bod yn sylweddoli nad ydynt ar eu pennau'u hunain, ac yn gwybod lle i droi.

Mae gennym gymdogion arbennig ymhlith trigolion Talybont.

**Pen-blwydd arbennig**

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Brandon, 32 Cae Gwigin, a ddathlodd ei benblwydd yn 21ain ym Mhrâg yn ddiweddar. Pob bendith, Brandon, a hwyl yn dy swydd newydd.

**Profedigaeth**

Estynnwn gydymdeimlad dwysaf at Gavin Purcell, 65 Bro Emrys. Ar y 14eg o Chwefror, bu farw ei frawd, Martin, yn annisgwyl yn Ysbyty Gwynedd, ac yntau'n ddim ond 54 oed. Cofiwn am y teulu oll ar adeg mor drist yn eu hanes.

**Mentergarwch**

Mae Deion Pritchard, 14 Dôl Helyg, a'i ffrind Tomos, yn awyddus i wneud ychydig o waith trin gerddi, neu olchi ceir, ar ddydd Sadwrn ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Does dim asgwrn diog yng nghorff yr un o'r hogiau, ac maen nhw'n ymfalchio yn eu gwaith.

Lai na chenhedlaeth yn ôl, byddai'n hawdd i blant yn eu harddegau cynnar gael gwaith am ychydig o oriau mewn un o'r siopau lleol, neu mewn caffi. Cawsant fudd mawr o ddysgu trin eu 'cyflog', heb sôn am ddod i ddeall ychydig am y natur ddynol, cyn mentro i fyd gwaith go iawn. Erbyn heddiw, yn anffodus, mae'r cyfle yna wedi peidio â bod.

### Eglwys St Cross

Gwasanaethau yr Wythnos Fawr a thros y Pasg:
Ebrill 17, Dydd Iau Cablyd: 7 p.m. Eglwys Crist, Glanogwen - Cymun
Ebrill 18, Dydd Gwener y Groglith: 2 p.m. St Cross - Myfyrdod
Ebrill 20, Sul y Pasg: 11 a.m. St Cross - Cymun
Ebrill 27, 10 a.m. St Tegai, gwasanaeth Cymun ar y cyd efo'r holl eglwysi Plwyf Bro Ogwen

Bore Coffi: Mai 6ed, 10.30 a.m. yn Ysgoldy
Am fanylion pellach neu i holi am ymweliadau bugeiliol, cymun cartref, bedydd, priodasau, angladdau neu gladdu ym mynwent yr eglwys, cysylltwch â'r Ficer: y Parchedig Ddr Gareth Lloyd: GarethLloyd@cinw.org.uk, 01248 361521; neu'r Barchedig Sara Roberts, Caplan Bro: SaraRoberts@churchinwales.org 07967652981;
neu Warden Eglwys St Cross, Catrin Hobson
07881 802882

### Capel Bethlehem

Oedfaon (am 2 o'r gloch)
Ebrill 20 Y Pasg: Parchg. Anna Jane Evans.
Ebrill 27: Oedfa i'w threfnu.
Mai 4: Parchg. John Pritchard.
Mai 11: Parchg. Ddr. Elwyn Richards.
Mai 18: Parchg. Megan Williams.
Mai 25: Oedfa i'w threfnu.
Croeso cynnes i bawb.

**Bedydd**

Hyfryd iawn oedd bod yn bresennol mewn oedfa arbennig iawn ar 23 Mawrth, pan weinyddwyd y Sacrament o Fedydd gan y Parchedig John Pritchard. Lilly Ann Kendrick oedd y ferch fach, 5 mis oed a fedyddiwyd, sef merch Wil (gynt o 4 Lôn Ddŵr) a Laura. Braf oedd gweld nifer dda o'r teulu yn y capel ar gyfer yr achlysur pwysig hwn yn eu hanes.

## Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**
mairpenybryn@gmail.com 01248 352966

**Pen-blwydd Arbennig**

Dymuniadau gorau i Marian Bryfdir Jones, Bro Eryri, Waen Wen, a ddathlodd ei phen-blwydd yn 80 oed ar 26 Mawrth.

**Cydymdeimlad**

Wedi salwch byr, bu farw Ernest (*Ernie*) Lee, Penhower Isaf, Caerhun yn Ysbyty Gwynedd ar 8 Mawrth yn 86 oed. Cydymdeimlwn â'i wraig, Sue a'i feibion Martin a Richard, a'r teulu i gyd yn eu colled a'u tristwch. Bydd yn cael ei gofio gyda hoffder gan ei deulu a'u gyfeillion oll.

### Cylch Glasinfryn

Cyfarfu aelodau'r Cylch yn y Ganolfan ar 12 Mawrth dros ginio i Ddathlu Gŵyl Dewi gyda Cawl a Chân. Mwynhaodd pawb y lobsgows a'r cawl blasus a'r dewis o bwdinau hyfryd i ddilyn, wedi eu darparu gan yr aelodau. Bopeth yn fendigedig, gwledd yn wir!

Yna yn dilyn cawsom wledd arall, daeth Megan o Fethel i ganu detholiad o ganeuon rhyngwladol gyda Marian Bryfdir yn cyfeilio. Cawsom hefyd ddeuawdau ar y piano gan James Griffiths a Marian, y tro cyntaf i'r ddau berfformio yn gyhoeddus! Mwynhawyd yr adloniant yn fawr gan bawb a rhoddwyd y diolchiadau iddynt hwy ac i bawb am ddarparu'r cinio gan Glenys.

Ar 9 Ebrill bydd Sarah Flynn yn dod atom i siarad am ei gwaith gwirfoddol yn Affrica.

Yna ar 7 Mai cawn sgwrs a'r Rheilffordd Eryri gyda Stephen Greig.

Mae pob cyfarfod yn dechrau am 2yp, mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni yn y Ganolfan.

*Bingo*

Cafwyd noson hwyliog iawn yn y Bingo bach ar 28 Mawrth. Gwnaed elw o £265 tuag at Cymdeithas Alzheimer's Lleol. Diolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfraniad tuag at y noson ac i'r ffyddloniad sy'n dod i gefnogi bob mis. Bydd y Bingo nesaf ar nos Wener 25 Ebrill am 7yh, gyda'r elw yn mynd at Elusen Ambiwlans Awyr. Dowch yn llu i gael noson o hwyl, bydd y clociau wedi eu symud ymlaen a'r nosweithiau yn olau!

*Canolfan Glasinfryn*

Mae Lŵp Clyw wedi cael ei osod yn y Ganolfan drwy garedigrwydd a haelioni Cyngor Cymuned Pentir. Daw adroddiadau yn barod ei fod yn gwneud gwahaniaeth i rai sydd yn defnyddio cyfarpar clyw. Diolch yn fawr iawn i Gyngor Pentir am ei ariannu.

# Gair neu ddau

John Pritchard

## AR EI GORAU O HYD

Fyddaf fi ddim yn prynu wyau Pasg ar y funud olaf i'r plantos eleni. Dwi wedi morol amdanyn nhw mewn da bryd er mwyn cael rhai â llyfryn sy'n adrodd stori'r Pasg. Mae'r wyau acw ers mis; ond dydyn nhw ddim gwaeth, gobeithio, gan fod 'Tachwedd 2025' wedi ei nodi ar y bocsys. Ac er y byddai'r wyau'n iawn tan hynny mi fyddan nhw mae'n debyg wedi eu sglaffio o fewn dyddiau i'r Pasg.

Rydan ni'n gyfarwydd â dyddiadau a'r geiriau 'Ar ei orau cyn' neu 'Defnyddiwch erbyn' ar wahanol fwydydd. Mae'n bwysig gwybod y gwahaniaeth rhyngddyn nhw. Mae a wnelo 'Ar ei orau cyn' ag ansawdd bwyd: wedi'r dyddiad a nodir, dyw'r bwyd ddim o reidrwydd cystal ag ydoedd, ond mae'n hollol iawn i'w fwyta. Ond mae a wnelo 'Defnyddiwch erbyn' â diogelwch bwyd: ni ddylid ei fwyta wedi'r dyddiad hwnnw rhag iddo achosi salwch.

Y Pasg yw un o brif wyliau'r Ffydd Gristnogol. Caiff ei dathlu mewn gwahanol ffyrdd gan eglwysi Cristnogol ar draws y byd. Ond sut bynnag y gwneir hynny, mae'r digwyddiadau a gofir arni – marwolaeth ac atgyfodiad Iesu Grist – yn allweddol a hollbwysig. Mewn gwirionedd, dyna sail y cyfan y mae Cristnogion yn ei gredu ac yn gobeithio amdano. Does ryfedd y bydd miliynau o Gristnogion ym mhob cwr o'r byd yn eu cofio mewn llawenydd a diolchgarwch y Pasg hwn.

Ond nid felly bawb. Mae rhai'n ymwybodol iawn o ystyr y Pasg. Ond er cystal y stori yn eu golwg, er cymaint eu diolch am ddylanwad y Ffydd ar ein cenedl a'n diwylliant a'n hiaith, ac er eu hedmygedd hyd yn oed o'r bobl sy'n arddel y Ffydd honno, y geiriau 'Ar ei gorau cyn' ddaw i'w meddwl ar drothwy'r Pasg. Iddyn nhw, beth bynnag fu dylanwad dyrchafol y Beibl a'r Efengyl a'r gwyliau Cristnogol, perthyn i gyfnod a fu y mae'r cyfan. Mae'r dirywiad crefyddol a nodweddir gan gau capeli ac eglwysi'n ofid; ond yn eu golwg nhw y mae hefyd yn anochel am fod y Ffydd ei hun wedi mynd heibio'i dyddiad 'Ar ei gorau cyn'. Bu'n werthfawr, do; ond roedd hynny 'cyn'. Cyn beth? Cyn i ni gallio? Cyn i ni ddod i oed? Cyn bod gennym reitiach pethau i fynd â'n bryd ac i hawlio'n teyrngarwch?

Mae gan eraill lai o gydymdeimlad â'r Ffydd ac â'r rhai ohonom sy'n ei harddel. Iddyn nhw, peth i'w groesawu ydi pob dirywiad crefyddol a phob pellhau oddi wrth y neges a'r gwyliau Cristnogol. O bosib y byddai'r geiriau 'Defnyddiwch erbyn' at eu dant gan mai pethau diwerth y dylid fod wedi eu rhoi heibio ers talwm fu'r Efengyl a'r Ffydd iddyn nhw erioed. A phethau peryglus hyd yn oed am eu bod, yn eu tyb nhw, yn cyfyngu ar ryddid pobl, ar eu mwynhad, ac ar eu gallu a'u hawl i wneud a fynnon. Iddyn nhw, mae unrhyw awgrym bod cymdeithas yn rhoi'r Ffydd hon heibio yn newydd da gan iddi wneud mwy o ddrwg nag o les erioed.

Ond beth bynnag ddywed neb, mi ddathlwn y Pasg unwaith eto, gan ail adrodd yr hanesion am groes a bedd gwag ein Gwaredwr am ein bod yn argyhoeddedig mai trwy ei farwolaeth a'i atgyfodiad y cawsom holl fendithion y gwir fywyd tragwyddol. Ydi, mae'r Efengyl mor berthnasol ag erioed, a heb newid na dirywio gyda threigl y blynyddoedd.

# Nyth y Gân

### Garddwriaeth

*Gwŷr ddaru greu garddwriaeth i lenwi,*
*I lonni cymdogaeth;*
*Daw â'i fwyd a'i lond o faeth*
*I aelwyd yn gynhaliaeth.*



### Clawdd Mynydd

*Yma daeth y gymdeithas i'w godi*
*Yn gadarn i bwrpas;*
*Trwy hyn fe greodd ein tras*
*Y campwaith sydd o'n cwmpas.*

### Chwarelwyr Ifanc

*(y cyfnod pan oeddynt yn cychwyn yn 12 oed)*

*Un caled oedd y coleg i'r rheini*
*Fu'n rhannu â'r garreg;*
*Hen ddyddiau, a hwy'n ddeuddeg,*
*A'r clwt yno'n dwt yn deg.*

### Y Newid

*Clywn aderyn ar ei orau*
*Yn rhoi cân ym mrigau'r coed,*
*Hithau'n braf ar fore cynnar,*
*Dyma ddarlun fu erioed.*

*Dilyn patrwm mae byd natur*
*Gan roi lliw dros gyfnod byr,*
*Yna'r tywydd oer a ddychwel*
*A goleuni'r dydd a dyr.*

*Dafydd Morris*


MODURON PANDY Cyf.

UNIPART CAR CARE CENTRE

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
**ebost:** sales@jrscaffolding.co.uk
**Ffôn/Ffacs:** 01248 601754
07770 568743 (symudol)


**Iona Wyn Jones,** 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280)
ionawynbangor@gmail.com

## Eglwys Sant Tegai, Llandygai

**Tŵr yr Eglwys a Chynlluniau Atgyweirio**
Eglwys St Tegai a'i chlochdŷ mewn gwisg o gennin pedr

Fel y gwyddoch, mae cynlluniau i atal mynediad glaw trwm i'r clochdŷ eisoes ar y gweill. Mae'r plwm wedi ei adnewyddu a mae'r sylw wedi troi at drwsio neu adnewyddu'r pibellau a'r cafnau ar y tŵr. Rhagwelir bydd y gwaith yn dechrau ym mis Gorffennaf ond braf yw cofnodi newyddion gobeithiol. Mae'r diolch i haelioni pob un ohonoch sy'n cyfrannu at ein cronfa atgyweirio.

Bydd cyfle i ymweld â'r Eglwys o Basg ymlaen, pan fydd yr adeilad ar agor yn ddyddiol. Mae Eglwys St Tegai yn ran o'r cynllun cenedlaethol "Eglwys Agored" ers 2004. Dewch draw!





**Gwasanaeth Coffa Archesgob John Williams (John Iorc)**
**Wardeniaid St. Tegai gyda Vicky Macdonald ac organydd Eglwys Conwy, Chris Roberts, yng ngwasanaeth coffa Archesgob John Williams.**

Ar Fawrth 25ain cyhaliwyd gwasanaeth coffa i Archesgob John Williams (John Iorc fel yr adweinir yn lleol) yn Eglwys Santes Fair, Conwy i nodi 375 o flynyddoedd ers ei farwolaeth. Claddwyd ei weddillion yn St Tegai a gwelir ei gofeb ar wal dde y cangell. Roedd John Williams yn aelod o deulu Williams Cochwillan/Penrhyn. Cododd i fod yn Archesgob Efrog ac Arglwydd Geidwad y Sêl Fawr yn nheyrnasiad Iago 1af ond disgynnodd o ffafr ar ôl digio Siarl 1af: ffigwr pwerus, dadleuol a charismatig yn adeg y Rhyfel Cartref, cwnstabl Castell Conwy ar y pryd ac un o gymeriadau enwocaf Dyffryn Ogwen.

Cynrychiolwyd yr eglwys gan 6 aelod o'r gynulleidfa ac yn ystod y gwasanaeth gosodwyd torch o flodau gwyllt gan wardeniaid St Tegai er cof am John Williams ar fedd y teulu Wynn o stâd Gwydir, sef teulu ei fam. Trefnwyd y gwasanaeth gan Vicky Macdonald, hanesydd lleol sydd wedi ysgrifennu cyfrol am fywyd a gyrfa'r Archesgob (ar gael gan Ann E Williams warden yn St Tegai).

**Prifysgol Aberystwyth yn canu clychau**
Daeth tîm o glochyddion, aelodau o Brifysgol Aberystwyth, yr holl ffordd i St Tegai ar ddydd Sadwrn Mawrth 22ain i ganu ein chwe cloch. Erbyn i'r rhifyn yma eich cyrraedd bydd clochyddion eglwys y plwyf, Yr Wyddgrug, wedi ymweld â'r clochdŷ ar Ebrill 4ydd er mwy manteisio ar y cyfle i ganu'r clychau enwog. Mae'r clychau gan ffowndri clychau Dobson o Downham Market yn dyddio o 1816, rhodd gan yr Arglwyddes Penrhyn ar y pryd. Cofiwch, erbyn diwedd Ebrill bydd y clychau'r gog a gyfeirir atynt yn y gerdd enwog gan R. Williams Parry allan yn y fynwent ac yn cystadlu yn eu mwynder gyda'r clychau yn y clochdŷ!

**Diolchiadau**
Rydym yn dra ddiolchgar i Christine Edwards, organydd Glanogwen, am lenwi'r bwlch wrth yr organ yn absenoldeb Geraint Gill. Fel cynulleidfa rydym wedi gwerthfawrogi ei pharatoi manwl a'r chwarae medrus. Diolch hefyd i Owain Morgan, hefyd o Fethesda, am lenwi fewn yn achlysurol.

**Y Fynwent**
Ers blynyddoedd bellach mae Eglwys St. Tegai wedi gwarchod erw Duw drwy ymatal rhag torri'r gwair ar ddechrau'r Gwanwyn i helpu blodau gwyllt a pheillio i ffynnu. Mae'r traddodiad yma yn gweddu'n ddelfrydol i'r ymgyrch "Mai Di-dor" mwy diweddar sydd wedi ei sefydlu dros y wlad er lles natur a phobl. Ynghyd â mannau cyhoeddus gwyrdd eraill bydd ein garddwr, Siôn Aelwyn Roberts yn dal yn ôl tan ddiwedd Mai i dorri'r gwair i roi cyfle i'r cennin Pedr, briallu a chlychau'r gog flodeuo. Cedwir y llwybrau ar agor yn y cyfamser drwy garedigrwydd Alan Radcliffe a gwirfoddolwyr eraill o'r pentref i hwyluso mynediad at y beddau.

**Dymuniadau gorau am adferiad**
Estynnwn ein dymuniadau gorau i bawb o'r gynulleidfa sydd yn derbyn triniaeth neu yn disgwyl am driniaeth. Gyrrwn cofion cynnes at Dai Edwards o'r pentref sydd yn derbyn gofal yn yr ysbyty. Mae Dai a'i wraig Eirlys yn gefnogwyr ffyddlon i weithgareddau'r eglwys. Gobeithio clywed fod pethau'n gwella fel mae'r tywydd yn cynhesu.

**Gwasanaethau Ebrill a Phasg**
**Ar y Sul**

- Ebrill 13eg Sul y Blodau: Cymun am 11.00 gyda'r Parch Sara Roberts
- Ebrill 20fed Sul y Pasg: Cymun am 11.00 gyda'r Canon Alex Mayes (glanhau ac addurno'r eglwys ar Sadwrn y Pasg Ebrill 19eg am 10.30)
- Ebrill 27ain 5ed Sul yn y mis: Cymun am 10.00 (Gwasanaeth unedig Bro Ogwen) gyda'n Ficer Parch Ddr Gareth Lloyd

Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth pob eglwys.

**Ar Ddydd Mercher**
Gwasanaeth 10.30, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn.

**Rhodd Pasg**

Derbynir yn ddiolchgar unrhyw roddion drwy siec yn daladwy i Eglwys Llandegai Church, neu arian parod mewn amlenni trwy'r blwch postio i'r swyddogion;

- Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd. LL57 3EF
- Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD

neu

- Edmond Douglas Pennant (Trysorydd a Warden y Bobl), Lodge Drws Melyn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4HU.

Os gwelwch yn dda a wnewch chi gynnwys eich enw llawn, cyfeiriad a e-bost ar eich rhodd: mae'n bosib i ni hawlio Rhodd Cymorth am gyfraniadau cymwys. Wrth gwrs mae'n bosib talu yn uniongyrchol drwy drosglwyddiad banc (Cyfrif yr Eglwys: **30-90-43, 00098435**). Diolch i bawb o'r ardal sydd wedi dangos diddordeb neu wedi cyfrannu eisoes i'n hachos. Bydd y rhoddion er budd y Gronfa Atgyweirio yn benodol at atgyweirio'r clochdŷ.

**Manylion Cyswllt**

Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen ond oherwydd ei salwch hir dymor, gofynnwn i chi gysylltu gydag Archddiacon Bangor, yr Hybarch David Parry, sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwysi ym Mro Ogwen. davidparry@churchinwales.org.uk.

Wrth gwrs gallwch hefyd gysylltu yn lleol â'n Caplan Bro, Parch Sara Roberts: SaraRoberts@churchinwales.org.uk.

# YSGOL LLANDYGAI




Ar ddechrau mis Mawrth, cawsom gyfle i ddathlu Gŵyl Ddewi ac hefyd neges Dewi Sant sef 'Gwnewch y pethau bychain'. Er i orymdaith Gŵyl Ddewi Bangor gael ei ohirio oherwydd y tywydd garw, cawsom gyfle yn dilyn hanner tymor i fynd ar orymdaith ein hunain o amgylch y pentref. Roedd pob disgybl, o'r Meithrin hyd at Flwyddyn 6, wedi llunio baneri, poster neu lun a llawer o sgwrsio a chanu gan fwynhau ein taith.

### Dosbarth Enfys a Dosbarth Gwawr

Mae Dosbarthiadau Enfys a Gwawr yn dysgu ar hyn o bryd am ddiwrnod golchi ers talwm. Maent wedi rhyfeddu bod diwrnod golchi dim ond yn digwydd ar ddydd Llun ers talwm, ond trwy luniau ac ymweliadau, maent wedi dod i ddeall pam oedd hyn a bod y gwaith mor galed wrth ymwneud â golchi. Croesawyd Caryl o'r Archifdy yng Nghaernarfon atom i ddangos offer golchi dillad ers talwm yn ogystal a rhai o eitemau oedd mewn tai ers talwm. Yn amlwg, rhaid oedd cynnal 'diwrnod golchi' ein hunain wedyn! Roeddem yn lwcus ein bod yn gallu dewis ein diwrnod i olchi wrth edrych ar ragolygon y tywydd – dydd Mercher oedd y dewis yn y diwedd ond fe gymerodd 2 ddiwrnod i'n dillad sychu.

### Dosbarth Tirion

Yn dilyn y siom o ohirio gorymdaith Dewi Sant ym Mangor, cafodd y dosbarth gyfle yn y diwedd i fynd i Fangor yn yr heulwen gan ymuno gydag ysgolion eraill ar y lawnt wrth Storiel. Cawsant gyfle i wisgo ei creadigaethau o gardfwrdd yr oeddynt wedi bod yn gweithio arnynt gyda thîm Cwmni'r Frân Wen. Cafodd y dosbarth ymwelwyr o Sefydliad Siapan yn y Brifysgol un prynhawn a chael amser yn dysgu am iaith ac arferion Siapan. Roedd y myfyrwyr a'r disygblion wedi mwynhau yr amser gyda'i gilydd yn fawr.

Bu criw o ddisygblion o ddosbarthiadau Awel a Tirion yn cynrychioli'r ysgol mewn 2 ddigwyddiad chwaraeon yn ddiweddar – Gala Nofio a chystadleuaeth Sports All. Diolch i bawb am gymryd rhan ac am fod mor gefnogol i'w gilydd yn ystod y 2 weithgaredd.

Braf oedd croesawu Gareth Jewell atom gyda'i sioe 'Dewi a Deiniol' yn cyfeirio at hanes Sant Deiniol o ardal Bangor. Braf oedd clywed ymateb y disgyblion yn cyfeirio am yr hyn y mae 'gwnewch y pethau bychain' yn ei olygu iddyn nhw.

### Dosbarth Awel

Croesawn Miss. Griffiths atom ni fel athrawes Dosbarth Awel yn ystod cyfnod secondiad Mrs. Davies.

Mae'r dosbarth bellach wedi cychwyn ar eu gwaith ar thema 'Llandygai'. Cawsant ddiwrnod braf iawn i gerdded i fyny i Gastell Penrhyn i grwydro o amgylch y castell a'r gerddi. Cyfle i weld yr ardal enhangach ar ei orau o'r castell yn ogystal â sylwi ar fyd natur wrth gerdded ar y daith.


STEPHEN JONES
TREFNWR ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

TÎM PLAID CYMRU DYFFRYN OGWEN

| cynghorydd. | cynghorydd. | cynghorydd. | cynghorydd. | cynghorydd. |
|---|---|---|---|---|
| Dafydd Meurig@gwynedd.llyw.cymru | EinirWyn Williams@gwynedd.llyw.cymru | Rheinallt Puw@gwynedd.llyw.cymru | Beca Roberts@gwynedd.llyw.cymru | Paul Rowlinson@gwynedd.llyw.cymru |
| 07765 400140 | 07747 690456 | 07789 742092 | 07436 927237 | 07949 034967 |
| Arllechwedd | Gerlan | Canol Bethesda | Tregarth & Mynydd Llandygai | Rachub |



# YSGOL LLANLLECHID

**Gwellhad Buan**
Dymuniadau da i Mr Stephen Jones am wellhad buan, yn dilyn llawdriniaeth ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Thompson, ar ddod yn nain a taid. Mae Andrew erbyn hyn yn dad i Aphia.

**Diwrnod y Llyfr**
Braint oedd croesawu Pennaeth Adran y Gymraeg, Catrin Heledd a disgyblion Blwyddyn 7 o Ysgol Dyffryn Ogwen yma at y disgyblion tair i saith oed ar Ddiwrnod y Llyfr. Mae'r arferiad hwn yn un arbennig; cyfle i ni gael gweld ein cyn ddisgyblion a chyfle i'n plant ni wrando ar eu straeon gwreiddiol. Cafwyd bore bendigedig a braf yn rhoi bri ar lyfrau Cymraeg a phwysigrwydd darllen. Darllenwyd llyfrau newydd Mrs Marian Jones hefyd, sef Bryn y Babi Bach Busneslyd, Annwyd Arthur yr Asyn, Ci Pinc a Pari Panda, Ci lliwgar a'r Het Hud.

**Glynllifon a Marchnad Bryncir**
Cafodd dosbarth Mrs Rona Williams hwyl yn ymweld â Glynllifon cyn mynd ymlaen i Farchnad Anifeiliaid Bryncir. Cafwyd croeso mawr a chael mynd i'r parlwr godro, gweld y moch a'r gwartheg, cyn cael cyfle i afael mewn 'Boa Constrictor'! Roedd pawb wedi dotio at y draenogod a'r madfall, cyn synnu at lygaid y tylluanod yn perfio! Diolch i Farchnad Bryncir a Glynllifon am y croeso cynnes.

**Creu Barcud**
Bu pob disgybl Blwyddyn 3 yn creu barcud yn yr ardal Addysg Awyr Agored. Dyna beth oedd cyfle i ddatrys problemau!

**Diwrnod Trwynau Coch**
Diolch i bawb am ymuno yn y bwrlwm. Codwyd £179.63 tuag at yr elusen. Diolch i bawb.

**Athletau**
Llongyfarcharchiadau i dîm athletau'r ysgol ar gyrraedd y rownd derfynol yng nghystadleuaeth Sportshall Ysgolion Gwynedd. Dymunwn yn dda i'r tîm yng Nghanolfan Brailsford ar Ebrill 3ydd, 2025.

**Planedariwm**
Choeliwch i fyth! Trodd ein neuadd yn Blanedariwm yn ystod mis Mawrth. Cafodd  disgyblion pedair i saith oed gyfle i fynd i mewn i'r babell fawr ddu a syllu ar y planedau a'r sêr a dysgu am gamp Neil Armstrong a Buzz Aldrin.

**Eisteddfod Cylch yr Urdd**
Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Diolch i Mrs Delyth Humphreys, Mrs Nerys Tegid a Mrs Meinir Jones am hyfforddi'r disgyblion.

Llawer iawn o ddiolch i'r holl staff a ddaeth i'r Eisteddfod Cylch, a diolch i rieni Eban, Efa Rhos, Eos ac Eila am fod mor barod i helpu yn y gegin. Gwnaethpwyd elw o £287.85 i gronfa Ysgol Llanllechid.

| Cystadleuaeth | Enw | Safle |
|---|---|---|
| Côr Ysgol | | 1af |
| Unawd Bl 5 a 6 | Elsi Allsup | 1af |
| Cyflwyno Alaw Werin | Elsi Allsup | 1af |
| Unawd Cerdd Dant Bl 5 a 6 | Elsi Allsup | 1af |
| Deuawd Bl 6 ac Iau | Erin Roberts a Hari Bardsley | 1af |
| Unawd Cerdd Dant Bl 2 ac Iau | Efa Rhos Hughes | 2il |
| Unawd Cerdd Dant Bl 2 ac Iau | Eos Hughes | 3ydd |
| Unawd Cerdd Dant Bl 3 a 4 | Evie Nyirenda | 1af |
| Unawd Bl 2 | Efa Rhos Hughes | 3ydd |
| Llefaru Bl 2 | Efa Rhos Hughes | 1af |
| Llefaru Bl 3 a 4 | Alaw Williams | 3ydd |
| Llefaru Bl 5 a 6 | Erin Roberts | 3ydd |
| Unawd Bl 3 a 4 | Ela Emlyn | 3ydd |

**Rygbi**
Llongyfarchiadau i dîm rygbi yr ysgol ar ddod yn fuddugol yn nhwrnament Rygbi'r Urdd Eryri. Ymlaen â ni i'r rowndiau terfynol yng Ngwyl Chwaraeon Cynradd yr Urdd ar Ddydd Sul, Mai 11. Pob dymuniadau da i'r tîm.




**Pêl-droed Merched**
Yr un yw ein llongyfarchiadau i'r Tim Pêl-droed Merched. Llongyfarchiadau ar eich camp yn dod yn fuddugol yn nhwrnament yr Urdd Eryri. Byddwch yn cystadlu yn y rowndiau terfynol yn Aberystwyth ar Ddydd Sadwrn, Mai 10fed. Pob dymuniad da!





**Arwyddion y Gwanwyn**
Diolch yn fawr i Alfie a Noa Mildoon am ddod â dau oen bach i ddangos i ni. Roedd eu boliau'n dynn iawn ar ddiwedd y bore!

## Adroddiad Cyngor Cymuned Llanllechid

**Mawrth 2025**
Cynhelir cyfarfod Mis Mawrth yn Festri Capel Bethlehem, Talybont ar Nos Iau, Mawrth 14fed.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Y Cynghorydd Kevin Williams.

Roedd y Cynghorwyr yn falch o weld Y Cynghorydd Alun Thomas yn bresennol yn dilyn ei ddamwain.

Croesawyd Naomi Jones o Barc Cenedlaethol Eryri i'r cyfarfod a cafwyd diweddariad ar nifer o brosiectau sydd gan y Parc.

Adroddwyd fod Giât Mynydd Rachub wedi'i chynhyrchu a'r twll wedi'i wneud. Caiff ei gosod o fewn tua 3 mis a'i haddasu yn ei lle. Bydd Clirio eithin yn digwydd dros Gaeaf 2024-25. Bydd y gwaith yn cydfynd efo'r hel mynydd.

Trac Moel Wnion. Does dim amserlen bendant ar gyfer y gwaith ond tua Gwanwyn/Haf 2025.

Mae'r Cyngor bellach yn y broses o brynnu peiriant torri gwair i'w ddefnyddio i dorri cae pêl-droed Talybont. Maent eisoes wedi prynu cwt i gadw'r peiriant.

Rydym yn chwilio am unrhyw wirfoddolwyr a allai helpu o bryd i'w gilydd gyda thorri'r gwair. Cysylltwch â cyngorllanllechid@ogwen.org os gwelwch yn dda. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau 11fed o Ebrill.

# YSGOL DYFFRYN OGWEN

### Diwrnod Blasu
Bu disgyblion blwyddyn 4 o ysgolion cynradd y dalgylch yn ymweld â ni i gael profiadau o wersi Dyniaethau a Choginio! Roeddent wrth eu boddau yn cydweithio i greu cacennau cri ac yn blasu cinio bendigedig yr ysgol. Edrychwn ymlaen i'w croesawu yn ôl eto.

### Gweithdy Cyfansoddi
Diolch i Mared Emlyn am gynnal gweithdy cyfansoddi gyda disgyblion Cerdd TGAU blwyddyn 10. Cafodd y disgyblion brofiadau newydd a heriol yn cyfansoddi.

### Ymweld â'r Theatr
Cafodd disgyblion 12 a 13 gyfle'n ddiweddar i ymweld â'r theatr gydag adran y Gymraeg. Bu'r criw'n gwylio 'Byth Bythoedd Amen' Theatr Cymru a '3 Drama' Theatr Bara Caws. Bydd y profiadau rhain yn werthfawr gydag elfen synoptig y lefel A Cymraeg.

### Ymweliad â Safle Dŵr Cymru
Roedd disgyblion o flwyddyn 8 a 9 wedi mwynhau sesiwn yn ymweld â safle trin dŵr ym Mynydd Llandygai fel dilyniant i'w gwersi gwyddoniaeth. Diolch yn fawr Dŵr Cymru am hwyluso ymweliad ble roedd yn bosib edrych ar y broses glanhau dŵr yn fanwl. Roedd pob un o'r disgyblion wedi holi ac ymateb yn arbennig. Balch iawn ohonynt yn cynrychioli yr ysgol. Diolch i Mrs. Ellis am drefnu.



### Gwobrwyo Disgyblion Blwyddyn 7 a 8
Cafodd nifer o ddisgyblion blwyddyn 7 a 8 eu gwobrwyo yn ddiweddar am ymdrech, ymddygiad a phresenoldeb da. Da iawn pob un ohonoch. Cofiwch, mae'r llechen yn lân unwaith eto ar gyfer gwobrwyo'r tymor nesaf!

### Ymweliad Llyfrgell Bethesda
Hyfryd oedd gweld disgyblion o flwyddyn 8 a 9 yn mwynhau'r cyfleoedd i ymweld â llyfrgell Bethesda yn rheolaidd fel rhan o'u gwersi Saesneg. Cânt gyfle i ddewis llyfrau a darllen mewn amgylchedd braf. Yn bendant mae'r profiadau yn helpu i dyfu eu cariad at ddarllen. Diolch Mrs. Sian Owen am drefnu.

### wGwobrau Dug Caeredin
Gwych oedd gweld cymaint o ddisgyblion yr ysgol yn cael eu gwobrwyo gan y Gwasanaeth Ieuenctid ym Mangor. Roedd tystysgrifau di-ri am gwblhau heriau iechyd a lles, cymorth cyntaf, dysgu sgiliau newydd a chwblhau Gwobrau Dug Caeredin (Arian a Efydd). Pa mor hyfryd oedd derbyn gohebiaeth gan Claire Hughes, yr Aelod Seneddol, yn canmol pobl ifanc arbennig Dyffryn Ogwen! Diolch anferthol i Tom o Urdd Gobaith Cymru a Ffion o Ieuenctid Gwynedd am roi eu hamser i gynnig y cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion.

### Pencampwriaeth Traws-Gwlad Cymru
Llongyfarchiadau Angharad Llwyd am gynrychioli ysgolion Eryri yn wych ym mhencampwriaeth traws-gwlad Cymru yn Aberhonddu. Roedd cael rasio gyda 90 o redwyr gorau'r wlad yn ei hoedran yn brofiad "newydd, cyffrous a chaled" meddai Angharad!

### Carfan Pêl-droed Ysgolion Gwynedd
Llongyfarchiadau i Lloer Davies ar ei pherfformiadau a'i chyfraniad gwych i Garfan Pêl-droed Ysgolion Gwynedd y tymor hwn. Rydym yn falch iawn ohonot Lloer.

### Cystadleuaeth Pêl-droed yr Urdd
Llongyfarchiadau i'n timau pêl-droed 5 bob ochr am eu perfformiadau gwych yng nghystadleuaeth 5 bob ochr Gogledd Cymru yr Urdd. Fe wnaeth tîm merched blwyddyn 7 ac 8 berfformio'n wych trwy'r dydd, gan ddod yn agos at y rownd gyn-derfynol. Da iawn genod!

Clod arbennig i'n tîm bechgyn blwyddyn 9 a 10, enillwyd pob gêm i ddod yn bencampwyr Gogledd Cymru unwaith eto. Camp arbennig gan grŵp hynod dalentog. Falch ohonoch i gyd!

*Brynrefail 1-3 Dyffryn Ogwen*
Bu gêm bêl droed yn erbyn Ysgol Brynrefail i'r tîm merched bl. 7 ac 8. Chwaraeodd y genethod yn gryf o'r cychwyn mewn tywydd rhewllyd. Cyd-chwarae ar ei orau!



**Adran Dylunio a Thechnoleg**
Mae'r Adran Dylunio a Thechnoleg wedi bod yn brysur yn creu gwobrau ar gyfer Eisteddfod Ysgol Penybryn. O dan arweiniad Mr. Richard Smith, dyluniodd Eban Pritchard a Byron Hadfield y dyluniadau gwreiddiol a chrefftus allan o ddeunyddiau amrywiol gan greu y cadeiriau ar argraffydd 3D yr ysgol. Bu Eban draw yn Ysgol Penybryn gyda Mr. Richard Smith i'w cyflwyno i Mrs. Morgan Jones a'r disgyblion.


*Tîm Criced Genethod Blwyddyn 9 a 10*
Llongyfarchiadau i dîm criced genethod blwyddyn 9 a10 ar eu perfformiad yng nghystadleuaeth criced Gogledd Cymru. Y genod wedi ennill dwy gêm yn gyfforddus, cyn colli yn y gêm derfynol i dîm cryf iawn o Eirias i orffen yn ail. Cofiwch am ymarferion Clwb Criced Bethesda, pob nos Lun am 6 o'r gloch, yma yn yr ysgol.

### Diwrnod y Llyfr
Cafodd disgyblion blwyddyn 7 amser gwych yn ymweld ag Ysgol Llanllechid a Thregarth, fel rhan o ddathliadau Diwrnod y Llyfr! Yn eu gwersi Cymraeg, mae'r disgyblion wedi bod yn brysur yn creu eu straeon gwreiddiol eu hunain, a cawsant gyfle arbennig i'w rhannu gyda disgyblion iau. Llongyfarchiadau i'n disgyblion talentog a brwdfrydig am ddangos creadigrwydd a hyder, a diolch i Ysgol Llanllechid ac Ysgol Tregarth am ein croesawu mor gynnes. Ffordd wych o ddathlu'r iaith Gymraeg!





# CROESAIR




**AR DRAWS**

2 Pryd meddal i glaf neu faban (4,3)
7 Tŷ, lle i aros dros dro (4)
8 Heb lais, a wrandewi ar ogla (4)
9 Am sal! Tro digri a doniol (5)
10 Pan mae'n bigog mae'n beryg (6)
11 Ai Adda oedd y cyntaf i wneud hyn. Roedd yn y lle iawn (6)
12 Lemwn neu rywun diserch (3)
14 O'i newid gall fynd yn ddwl a hurt (5)
16 Newid tymor a hinsawdd ar adegau arbennig, " - - - - - y rhod" (5)
18 Elin a Gwen yn cyfri (3)
21 Ydi'r Cynghorwyr Sir am drafod 'ta cysgu yma (6)
23 Dyma hyd cymharol yr ail o'r deuddeg (6)
24 Dychwel tua ble roeddwn i pan glywais y gwcw lon ? (5)
25 Ffordd i edrych o'r gwaelodion (4)
26 Yn ôl yr emynydd mae'r pererin yn gwyro weithiau i'r dde neu'r - - - - draw W.W. (4)
27 Swnio fel crydd yn cymryd lle rhywun arall wrth drwsio rhan o'r esgid (7)

**I LAWR**

1 Mor swynol i'r glust (7)
2 Gyda llaw, mae gan gloc neu gŵn rai (5)
3 Yn ddiarhebol, hir yw'r disgwyl yma am eich tro (6)
4 Corff milwrol yn yr entrychion (2,4)
5 Ai James Bond oedd yr enwocaf ohonynt (7)
6 Ffordd i gadw'n sych wrth agosau at Lerpwl efallai (5)
13 Wedi difrodi yn llwyr, yn - - - (3)
15 Ymddwyn yn fusneslyd (7)
17 Gweld ydi rhywbeth yn gweithio'n iawn cyn ei dderbyn (7)
18 Saif dy dechnoleg fodern fel un o'r rhai pwysicaf erioed (6)
19 Caiff wahoddiad i ddod yn hwyr y dydd yn ôl cân Edward H. Dafis (6)
20 Cartref gyda cae neu ddau (5)
22 Cyndyn i gyfaddef, er ei fod yn gyfrifol (2,3)

Atebion erbyn 2ail Ebrill 2025 fan bellaf *(ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach)* i 'Croesair Ebrill', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

**ATEBION CROESAIR MAWRTH 2025**

**AR DRAWS** 1 Swyddfa, 4 Rhagori, 7 Awdurdodi, 9 Inni, 10 Asio, 11 Cemeg, 13 Taliad,14 Siglai, 15 Maeres, 17 Adrian, 19 Garda, 20 Naill, 22 Cwyr, 23 Galwad Fer, 24 Sardîn, 25 Sarnau

**I LAWR** 1 Saliwt, 2 Ddewi, 3 Adduned, 4 Rhodres, 5 Gyda, 6 Iâr Ori, 7 Analgesig, 8 Iseldirwr, 11 Caseg, 12 Gisda, 15 Mynwes, 16 Sadwrn, 17 Adidas, 18 Nerfau, 21 Llaid, 22 Ceir

Camgymeriadau y tro hwn oedd 'siglad' a 'siglodd' yn lle 'siglai' (14 Ar Draws), 'iâr oed' a 'iâr ordd' yn lle 'iâr ori' (6 I Lawr). Ond y maen tramgwydd mawr oedd nifer sylweddol yn cynnig 'sildyn' yn hytrach na 'sardîn', a 'sgodyn' a 'sildon' (24 Ar Draws). Mae 'sildyn' yn bysgodyn bychan, ond roedd y gair 'bwytadwy' yn y cliw hefyd !

Canmoliaeth i'r canlynol am atebion cywir: Iona Williams, Llanddulas; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Stella Dafis, Rachub; Barbara Jones, Talybont; Judith Hughes, Llangoed; Medi Michael, Bangor; Gareth Oliver, Dulcie Roberts, Sian Beidas, Tregarth; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Doris Shaw, Bethesda; Wendy Eccles, Llanllechid

Yr un sy'n cipio'r wobr a'r clod y mis yma ydi Sian Beidas, Hyfrydle, Lôn y Wern, Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4BA. Llongyfarchiadau i chi.


**MODURDY FFRYDLAS**

Profion M.O.T.

**PERCHNOGION**
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
**Stryd Fawr, Bethesda**
PROFION M.O.T.
GWASANAETH ATGYWEIRIO
TEIARS A BATRIS
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com


***Cysylltwch â Neville Hughes (Ffôn 600853) nev_hughes @btinternet.com***

